



Cyfarfod

BWRDD PENSIWN

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD GWENER, 11EG GORFFENNAF, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 3 Gorffennaf 2025)

BWRDD PENSIWN

AELODAETH

CYNRYCHOLWYR CYFLOGWR

Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy)

Edward Michael (Cyngor Sir Ynys Môn)

Roland Thomas (Cyngor Gwynedd)

CYNRYCHOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Sir Ynys Môn)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Anthony Deakin (wedi ymddeol - Cartrefi Conwy)

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

6 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7fed o Ebrill 2025 fel rhai cywir

5. COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR PENSIYNAU

12 - 15

Cyflwyno, er gwybodaeth gofnodion Pwyllgor Pensiynau Mehefin 12fed 2025

6. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y 16 - 60 FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025

I dderbyn a nodi

- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2024/25.

7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU: ADDAS I'R 61 - 62 DYFODOL

I nodi'r diweddariad.

8. SYMPOSIWM PWLIO CPLLL

63

I nodi a derbyn y wybodaeth.

9. CYNHADLEDD BUDDSODDI YNG NGHYMRU 64

I dderbyn a nodi'r wybodaeth

**10. ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y BWRDD PENSIWN AR 65 - 68
GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA**

I ystyried cynnwys yr adroddiad drafft er mwyn trafod ei gynnwys a chynnig gwelliannau yn y cyfarfod.

11. DATGANIAD POLISI LLYWODRAETHU WEDI'I DDIWEDDARU 69 - 77

Argymhellir bod y Bwrdd Pensiwn:

1. Adolygu ac yn nodi cynnwys y Datganiad Polisi Llywodraethu wedi'i ddiweddarau.
2. Yn cefnogi cyhoeddi a pharhau i ddefnyddio'r ddogfen ddiwygiedig fel rhan o Fframwaith cydymffurfio'r Gronfa.

12. COFRESTR RISG 78 - 96

I graffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.

13. POLISI'AU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN 97 - 105

I ystyried yr adroddiad a chynnig adborth am gynnwys y polisi'au gweinyddol newydd

BWRDD PENSIWN 07-04-2025

Yn bresennol:

Anthony Deakin, Eifion Jones ac Osian Richards (Cynrychiolwyr Aelodau)

Sioned Parry (Cadeirydd) a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim l'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

DIWEDDARIAD SEDD WAG

Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Cyllid ar y camau sydd wedi eu cymryd i ganfod Aelod newydd i'r Bwrdd. Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â'r cylch gorchwyl, bydd y penodiad (fel cynrychiolydd cyflogwr) wedi ei gyfyngu i Aelodau a staff Cyngor Gwynedd yn unig. Nodwyd bod un cais wedi dod i law ac mai'r cam nesaf fydd trefnu cyfweliad.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 4ydd Chwefror 2025 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddarau'r Aelodau ar gynllun hyfforddiant 2024/25 a gosod cynllun hyfforddiant bras ar gyfer 2025/26. Ystyriwyd bod cynllun 2024/25 wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i aelodau'r Bwrdd am fynychu sesiynau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a'r Cynadleddau oedd yn cael eu canmol fel rhai defnyddiol ac amserol.

Wrth drafod cynllun hyfforddiant 2025/26, cyfeiriwyd at ganlyniadau Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson a gwblhawyd gan yr Aelodau yn ddiweddar gan nodi bod Hymans Robertson wedi adnabod rhai meysydd sydd angen sylw pellach ynghyd â meysydd roedd yr Aelodau eu hunain wedi eu dewis. Nodwyd bod sesiwn hyfforddiant ar ddulliau a rhagdybiaethau actiwaraid eisoes wedi ei gynnal a bod hyfforddiant ar sero net a llywodraethu i'w gynnal yn fuan. Ategwyd y bydd eitem gweinyddiaeth pensiwn yn cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Bwrdd ac y bydd modd darparu hyfforddiant yn ôl y galw yn y Paneli Buddsoddi; bydd yr Aelodau hefyd yn parhau i dderbyn sesiynau hyfforddiant gan PPC, mynychu a derbyn gwybodaeth mewn nifer o gynadleddau a chael y cyfle i dderbyn hyfforddiant ar lein.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y cynllun hyfforddiant yn cwmpasu nodweddion yr asesiad
- Bod y rhaglen yn un gynhwysfawr
- Bod webinarau PPC a Hymans yn fuddiol iawn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â webinarau PPC a'r posibilrwydd o dderbyn dyddiadau ymlaen llaw am y flwyddyn, nodwyd mai ar gylchred chwarterol roeddynt yn cael eu trefnu ac er derbyn bod hyn yn fyr rybudd y byddai'r dyddiadau yn cael eu rhannu fel yr oeddynt yn cael eu cyhoeddi.

Derbyniwyd y Cynllun Hyfforddiant er gwybodaeth

6. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddar y'r aelodau'n ffurfiol o waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Nodwyd bod yr adroddiad bellach yn un sy'n cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Bwrdd ac yn elfen bwysig iawn o Gronfa Bensiwn Gwynedd sydd bellach gyda 85% o'r gronfa wedi'i bwlio.

Adroddwyd bod y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn cynrychioli'r Gronfa yn holl gyfarfodydd y pwl, a bod y cydweithio yn parhau i fynd yn dda ar faterion megis ymateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth, pleidleisio ac ymgysylltu ac yn gyffredinol rhannu ymarfer da ar draws y cronfeydd.

Tynnwyd sylw at y cronfeydd gan amlygu bod perfformiad y cronfeydd ar y cyfan wedi bod tu ôl i'r meincnod ers y dechrau a hyn yn benodol gan fod y meincnod a osodwyd yn heriol e.e. ar gyfer y Gronfa sustainable equity y meincnod yw MSCI All Country World Index, sydd yn cynnwys yr holl gwmnïau, ond bod cwmnïau y mae'r Gronfa yn gallu buddsoddi ynddi wedi ei gyfyngu. Eglurwyd bod Cronfa Global Growth wedi bod mewn bodolaeth ers dros 5 mlynedd ac wedi tan berfformio'r meincnod. O ganlyniad, mae Russell Investments wedi newid strwythur y gronfa yma ac wedi newid y rheolwyr o fewn y portffolio - bydd swyddogion Gwynedd, ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson a swyddogion PPC yn monitro'r cronfeydd yn fanwl yn y dyfodol.

Adroddwyd bod cronfeydd newydd marchnadoedd preifat yn prysur gael ei sefydlu gyda diweddariad i'w rannu pan fydd perfformiad y cronfeydd yma yn cael ei dderbyn. Yn yr un modd, nodwyd bod y Bartneriaeth yn sefydlu cronfeydd eiddo ac y bydd trafodaeth yn cael ei gynnal gyda Hymans Robertson i drafod pa opsiwn y gellid manteisio arno.

Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' a gafodd ei lansio gan Lywodraeth y DU oedd yn trafod tri maes allweddol:

- Diwygio'r trefniadau pwlio asedau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol
- Hybu buddsoddiadau lleol
- Cryfhau llywodraethu o fewn y cronfeydd pensiwn.

Amlygwyd bod ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gyflwyno gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ynghyd ag achos busnes sy'n awgrymu mai'r ffordd ymlaen i PPC yw i Gymru gadw cronfa CPLIL annibynnol gan adeiladu ar lwyddiant trefniadau cronni presennol. Ategwyd y byddai modd gwneud hynny drwy greu cwmni buddsoddi o dan yr enw 'IM Co'; yr ail opsiwn fyddai bod fel is bartner neu gleient mewn pŵl gyda chronfeydd mwy yn rheoli, ynghyd â chostau trosiannol. Nodwyd, petai Cronfa Bensiwn Gwynedd eisiau parhau i gael llais mewn penderfyniadau, siapio buddsoddiadau addas i'w proffil a sicrhau buddsoddi yng Nghymru, bydd rhaid

datblygu WPP i fod yn IM Co ac er bydd costau ynghlwm a gweithredu hyn, bod y sefyllfa yn cael ei orfodi. Gobeithir y bydd dychweliadau yn parhau yn gryf a'r costau buddsoddi yn is yn y pen draw.

Ar y 1af o Ebrill 2025 adroddwyd bod Sioned Parry ac Osian Richards wedi mynychu cyfarfod Cadeiryddion y Bwrdd Pensiwn dros Gymru. Cyfeiriwyd at y sylwadau ffafriol oedd wedi cael eu cyfleu yn y cyfarfod at gadw PPC yn annibynnol a bod y swyddogion yn gweithio yn hynod o galed o fewn amserlen dynn i ymateb i ofynion yr adolygiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Er y costau, byddai'r fenter yn fuddiol i Gymru
- Croesawu'r ymdrech i gadw annibyniaeth pwl Cymru
- Bod angen sicrhau bod y broses yn cyfateb i'r angen yn hytrach na phroses fawr, gostus yn creu newid er mwyn newid
- Mai'r nod yn wreiddiol oedd pwlio cronfeydd i arbed costau ond bellach ceir gorfodaeth i wario i sefydlu cwmni
- Llywodraeth DU heb gydnabod bod y drefn bresennol yn gweithio yn effeithiol ac yn dderbyniol, ond eto yn gorfod sefydlu cwmni i'w gymeradwyo gan Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA - Financial Conduct Authority)
- Cais i'r swyddogion rannu gwybodaeth am y fforymau a gyflwynodd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â photensial o arbedion yn y tymor hir (er nad oedd cyfeiriad at arbedion yn y Cynllun Busnes) nodwyd, o ran amcanion bras iawn, bydd costau Rheolwyr Buddsoddiadau yn ddibynnol ar berfformiad ac felly yn y tymor hir y gobaith yw bydd arbediad i Wynedd (er nad oedd sicrwydd ar hyn o bryd). Mewn ymateb i sylw ynglŷn ar effaith ar adnoddau a chostau staff, nodwyd nad oedd gwybodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau staff wedi dod i law. Derbyniwyd y rhwystredigaeth nad oedd costau ffurfiol i'w rhannu, ond y byddai unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei dderbyn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd.

Derbyniwyd y wybodaeth

7. SEMINAR BUDDSODDI LGC

Derbyniwyd adborth ar lafar gan Mr Hywel Eifion Jones oedd wedi mynychu'r Seminar ar ran y Bwrdd. Amlygodd bod trafodaethau am ddiwygio'r trefniadau pwlio asedau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol wedi taflu cysgod ar y seminar, ond yn amlwg hefyd bod mwy o drafodaethau eleni o gwmpas buddsoddi yn lleol ym Mhrydain yn hytrach na buddsoddi byd-eang. Ategwyd bod sesiynau trafod am y prisiad a'r pwyslais ar ddechrau'r broses yn gynnar a hefyd drafodaeth ar 'or-fuddsoddi' a thorri lawr ar gyfraniadau. Nodwyd bod gwahaniaeth barn ar y pwnc yma a chwestiynau yn codi ynglŷn â sut i ddelio a'r mater.

Diolchwyd am yr adborth

8. GOSOD RHAGDYBIAETHAU AR GYFER PRISIAD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlinellu gosodiad rhagdybiaethau ar gyfer prisiad 2025 Cronfa Pensiwn Gwynedd. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y disgwyliad oes ariannol, disgwyliad oes, a rhagdybiaethau demograffig eraill sydd rhaid i'r Gronfa eu gwneud, a bod y rhagdybiaethau hyn wedi eu gosod gan Actiwari'r Gronfa wedi trafodaethau a sesiwn hyfforddi gyda

Swyddogion, Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau'r Bwrdd. Amlygwyd bod perthnasedd y rhagdybiaethau presennol wedi cael eu hystyried cyn cyflwyno newidiadau fyddai'n adlewyrchu nodweddion penodol y Gronfa a chymryd barn hirdymor iawn. Ategwyd bod y rhagdybiaethau hefyd yn cadw at ganllawiau CPLIL sy'n gofyn am ddoethineb yn y gyfradd ddisgownt, tra bod y rhagdybiaeth eraill yn amcangyfrifon gorau posib.

Yng nghyd-destun rhagdybiaethau ariannol, amlygwyd newidiadau sylweddol mewn amodau economaidd ers prisiad 2022, oedd yn cynnwys cyfraddau llog uwch, chwyddiant uwch na'r disgwyl, a mwy o anweddolrwydd (volatility) yn y farchnad. Nodwyd bod risgiau gwleidyddol a hinsawdd hefyd yn cael eu crybwyll fel ffactorau dylanwadol. Ategwyd bod y gyfradd disgownt (sydd yn cynrychioli cyfradd flynyddol gyfartalog dychwelyd buddsoddiad yn y dyfodol), wedi gweld newid sylweddol yn yr amgylchedd economaidd ers 2022, sydd o ganlyniad wedi arwain at enillion buddsoddi disgwyliedig uwch yn y dyfodol, a lefelau cyllido, ond hefyd at gynydd mewn ansicrwydd. Amlygwyd mai argymhelliad yr Actiwari oedd cynyddu'r lefel bwyll ar gyfer y gyfradd ddisgownt o 75% i 80%.

Yng nghyd-destun codiadau i'r buddion ac ailbrisio Cynllun Cyfartaledd Gyrfa, sy'n gysylltiedig â CPI, nodwyd bod y dull yn aros yr un fath â phrasiad 2022, ond yn adlewyrchu disgwyliadau chwyddiant cyfredol. Adroddwyd mai'r lefel gyfartalog o chwyddiant i'r dyfodol ar 30 Tachwedd 2024 oedd 2.3% y flwyddyn (o'i gymharu â 2.7% y flwyddyn ym mis Mawrth 2022) ac felly argymhellwyd cynnal codiadau cyflog ar CPI + 0.5%, i adlewyrchu ansicrwydd er gwaethaf disgwyliadau chwyddiant cyfredol.

Cyfeiriwyd at ragdybiaethau disgwyliad bywyd gan nodi mai'r argymhelliad oedd mabwysiadau rhagdybiaeth gyffredinol o welliant 'diofyn' yn y dyfodol, a gyda rhagdybiaethau eraill megis rhagdybiaethau demograffi, nodwyd bwriad o fabwysiadu rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth o'r Gronfa ynghyd â phrofiad aelodaeth wirioneddol y Gronfa.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Pensiynau, mewn cyfarfod ar 17 Mawrth 2025, wedi mabwysiadu'r rhagolygon.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn am 'fwlch cyfraniad / taliadau' (payment / contribution holiday) ac os dylid ystyried hyn fel risg, nodwyd bod y Ddeddfwriaeth bellach yn cael ei haddasu i atal hyn. Ategwyd pe byddai unrhyw ragdybiaethau sydd wedi eu derbyn angen eu hadolygu mewn ymateb i unrhyw sefyllfa sydd yn codi, nodwyd bod modd gweithredu hyn ac y byddai'n cael ei ystyried fel ymddygiad darbodus

Mewn ymateb i sylw, o ystyried anweddolrwydd y farchnad ar hyn o bryd, ac os byddai modd caniatáu prisiad dros dro, nodwyd bod hyn wedi cael ei ganiatáu mewn achosion eithriadol, ond eto, y bwriad yw addasu'r Ddeddf i atal hyn.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol,

- Y Gronfa wedi ei hariannu yn dda, onid doeth fyddai cadw'r sefyllfa fel y mae yn hytrach na lleihau cyfranddaliadau? rhag ofn i bethau fynd o chwith?
- Bod prisiad pob tair mynedd yn cadw rheolaeth dros gyfraniad y cyflogwr – rhaid bod yn ymwybodol o'r sefyllfa a cheisio osogi sefyllfa sydd yn mynd i fyny ac i lawr.
- Pwysig cynnal trafodaethau gyda'r prif gyflogwyr
- Cais i'r gofrestr risgiau cael ei chyflwyno / diweddarau erbyn y cyfarfod nesaf
- Derbyn mai rhagolygon sydd yma ac anodd yw cael eglurder heb ffigyrau cywir - er hynny angen sicrhau balans

Derbyniwyd y wybodaeth

9. CRYNODEB O DDADANSODDIAD BWLCH PENSIWN RHYW

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau adroddiad oedd yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad diweddar a gynhaliwyd gan Hymans Robertson ar ddata aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd (data 2024/25) fel rhan o archwiliad Bwlch Pensiynau Rhywedd, sef y gwahaniaeth rhwng incwm ymddeol dynion ac incwm ymddeol merched. Nodwyd bod y gwahaniaeth yn cael ei fesur yn ôl y gwahaniaeth mewn cyfoeth ar ôl ymddeol, gan gynnwys eitemau fel eiddo.

Cyfeiriwyd at ganfyddiadau allweddol y dadansoddiad oedd yn cadarnhau bodolaeth Bwlch Pensiwn Rhywedd ac anghyfartaledd mewn symiau pensiwn pensiynwyr cyfredol ac Aelodau actif. Tynnwyd sylw at y ffactorau hynny sydd yn cyfrannu at y bwlch ynghyd â'r argymhellion sydd yn cael eu hawgrymu i fynd i'r afael â'r bwlch yn llawn. Nodwyd, er derbyn bod angen newidiadau a gweithredu ar lefel genedlaethol, bod modd gweithredu rhai camau ar lefel lleol hefyd, gyda'r cyflogwyr, yn hytrach na'r Gronfa Bensiwn yn arwain ar y materion hyn. Ategwyd, ymysg y gwaith sydd angen ei wneud, bod rhaid adolygu polisiau megis polisi dychwelyd i'r gwaith, patrymau gwaith ac oriau gwaith ac addysgu merched yn well ar oblygiadau cyfnod mamolaeth.

Amlygwyd yn unol â chais y Pwyllgor Pensiynau, bydd y mater yn cael ei gynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Osian Richards (fel Aelod hefyd o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol) yn diolch am yr adroddiad ac yn croesawu'r manylion trylwyr oedd wedi eu cynnwys ynddo.
- Bod yr adroddiad yn un cynhwysfawr a diddorol ac yn anffodus yn adlewyrchu patrwm cyffredinol pensiynau
- Yn croesawu'r argymhellion a'r camau nesaf
- Yn awgrymu i'r adroddiad gael ei rannu gyda holl gyflogwyr y Gronfa
- Awgrym i'r cyflogwyr gynnal arolwg ymysg cyfranogwyr i geisio mwy o wybodaeth a chanfod ymwybyddiaeth merched o'r gwahaniaethau

Derbyniwyd y wybodaeth

10. CYSYLLTU I'R DASHFWRDD PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlinellu cynnydd a chynlluniau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer cysylltu â'r Dashfwrdd Pensiynau. Eglurwyd y byddai'r Dashfwrdd Pensiynau yn caniatáu i aelodau weld gwybodaeth am eu pensiwn mewn un lle, gan wella tryloywder ac ymgysylltu ar gyfer cynllunio ar gyfer eu hymddeoliad.

Tynnwyd sylw at yr amserlen cysylltu oedd yn cynnwys dyddiadau allweddol i sicrhau bod y gwaith a'r cyswllt wedi ei gwblhau erbyn y dyddiad cau, sef 31ain o Hydref 2025. Adroddwyd bod Heywood Pension Technologies wedi cael eu penodi fel Darparwr Gwasanaeth Integredig (ISP) ar gyfer y Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau fydd yn gweithredu fel cyswllt fydd yn cysylltu cynlluniau pensiynau a darparwyr gyda'r bensaernïaeth ddigidol ganolog, gan sicrhau bod y data yn cael ei rannu'n ddiogel.

Yn ogystal, adroddwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) i sicrhau bod y data yma hefyd yn gysylltiedig â'r

Dashfwrdd Pensiynau. Bydd hyn yn cynnwys cydlynu â phob darparwr AVC i gadarnhau eu dulliau cysylltu â'u parodrwydd, gyda Chymdeithas Safonau Gweinyddu Pensiynau (PASA) wedi darparu rhestr wirio a phecyn cymorth i gynorthwyo gyda'r broses hon.

Ystyriwyd bod y Dashfwrdd Pensiynau yn gam sylweddol ymlaen i wella profiad a gwasanaeth i aelodau'r Gronfa a gydag amserlen glir ar waith, roedd y Rheolwr Buddsoddi yn hyderus y byddai'r gofynion yn cael eu bodloni a'r dyddiad cau yn cael ei gyfarch. Ategwyd bod bwriad cyflwyno diweddariadau ar y cynnydd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau pellach i gyfarfodydd nesaf y Bwrdd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Mai da fydd cael y wybodaeth mewn un lle
- Bod y Llywodraeth wedi trafod y gwaith ers blynnyddoedd – braf gweld bod gwaith ar waith
- Yn croesawu sicrwydd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y targed
- Bod angen ail drafod y mater ar ôl i'r cyswllt gael ei gwblhau

Derbyniwyd y wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 14:05pm

PWYLLGOR PENSIYNAU 12-06-25

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), Medwyn Hughes, Iwan Huws, John Pughe Roberts, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Elin Hywel yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2025/26

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2025/26

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Stephen Churchman, Cyng John Brynmor Hughes a'r Cyng Elin Hywel

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

5. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 fel rhai cywir.

7. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo Cynllun Busnes diwygiedig Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adroddwyd bod y Cynllun Busnes wedi cael ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ym mis Mawrth 2025, ond bellach wedi ei addasu i amlygu costau dylunio a galluogi Prosiect Wyddfa, ble derbyniwyd cymeradwyaeth yn ei gyfarfod 4ydd o Fehefin 2025. Ategwyd y bydd y Cynllun angen derbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgorau unigol o fewn y Bartneriaeth.

Nodwyd bod y Bartneriaeth yn creu Cynllun Busnes yn flynyddol am gyfnod o dair blynedd a'r prif bwrpas yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu
- Amlinellu'r blaenoriaethu ac amcanion dros y tair blynedd nesaf
- Cyflwyno polisiau a chynlluniau'r Bartneriaeth
- Amlinellu'r gyllideb ariannol
- Crynhoi buddsoddiad ac amcanion perfformiad PPC

Diolchwyd am yr adroddiad

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r Cynllun Busnes

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo Cynllun Busnes Diwygiedig Partneriaeth Pensiwn Cymru 2025 – 2028

8. CPLIL: 'ADDAS I'R DYFODOL' - CYFLWYNIAD PPC I'R LLYWODRAETH

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi

Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â gofynion 'Ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol' a lansiwyd ym mis Tachwedd 2024, bod gwahoddiad i'r wyth pwl CPLIL a sefydlwyd yn genedlaethol gyflwyno achos busnes yn amlinellu sut y buasent yn cwrdd â meini prawf angenrheidiol y Llywodraeth. Nodwyd bod y Llywodraeth wedi amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r gwaith o reoli buddsoddiadau CPLIL mewn tri maes allweddol oedd yn cynnwys diwygio cronfeydd asedau'r CPLIL, hybu buddsoddiad y CPLIL mewn ardaloedd lleol a rhanbarthau yn y DU, a chryfhau llywodraethiant Awdurdodau Gweinyddu y CPLIL a chronfeydd y CPLIL.

Yn ystod yr ymgynghoriad codwyd y cwestiwn sylfaenol, a fyddai PPC yntau yn ystyried sefydlu cwmni annibynnol ynteu yn uno â CPLIL arall yn Lloegr. Adroddwyd bod PPC wedi dod i'r casgliad mai'r hyn fyddai orau i'r holl randdeiliaid uniongyrchol ac ehangach yng Nghymru oedd mynd ymlaen i adeiladu ei IMCo. ei hun a chadw ei annibyniaeth fel pŵl gyda phob un o'r 8 CPLIL yng Nghymru fel yr unig randdeiliaid a chleientiaid.

Cyflwynwyd achos busnes PCC i'r Llywodraeth yn Chwefror 2025 ac ym mis Ebrill 2025, derbyniwyd y newyddion calonogol bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC, gyda swyddogion y Llywodraeth yn gofyn i'r PPC barhau i weithredu ei gynlluniau a pharhau i hysbysu'r llywodraeth o'r cynnydd. Nodwyd nad oedd 2 bŵl yn Lloegr, Brunel ac ACCESS, yn llwyddiannus wrth gyflwyno eu hachos busnes a'r AG sylfaenol bellach wedi'u gwahodd i geisio ymuno â phŵl arall.

Ategwyd er mwyn bodloni dyddiadau cau heriol y Llywodraeth, bydd angen cyflwyno cais yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i sefydlu IM Co PPC yn fuan. Nodwyd bod gofynion yr FCA yn nodi bod yr endid sy'n gwneud cais am awdurdod (h.y. IMCo. PPC) yn gorfod cael ei ymgorffori cyn cyflwyno'r cais FCA a bod yn rhaid i ddeiliaid rhai swyddi Uwch Reoli (SMF), gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, gael eu hadnabod a'u cynnwys yn y cais.

Cyfeiriwyd at gamau nesaf y broses oedd yn cynnwys sefydlu Bwrdd gyda chynrychiolaeth o gyfranddalwyr (fydd yn cymryd lle'r Cydbwyllgor) ac yn ystod Haf 2025 bydd angen cofrestru'r cwmni gan sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion yr FCA.

Ystyriwyd y byddai ffurfio IM Co. PPC yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu Cwmni Buddsoddi CPLIL annibynnol er budd holl randdeiliaid y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, fydd yn parhau i fuddsoddi ar gyfer ei aelodau a diogelu pensiynau CPLIL, a chael y cyfle hefyd i barhau â'i rôl yn buddsoddi'n lleol ledled Cymru a gweddill y DU, gan weithio gyda Chynghorau, Cydbwyllgorau Corfforaethol, Banc Datblygu Cymru, Banc

Busnes Prydain a Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo twf economaidd, darparu cyflogaeth, diogelu ynni glân a gwella seilwaith ehangach y wlad, er budd pobl Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac i drafodaethau ynglŷn â phenodi 'aelod annibynnol sydd wedi ei gymhwyso' ac os oedd hynny yn cyfeirio at aelod wedi ei gymhwyso mewn cyllid, nodwyd nad oedd manylion pellach wedi dod i law. Ategwyd er hynny y bydd rhaid i ddeiliaid rhai swyddi Uwch Swyddogaeth Rheoli, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, gael eu henwi'n benodol o fewn y cais ffurfiol i'r FCA er mwyn i'r FCA wirio ac asesu eu bod yn addas i'r rôl.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau sefydlu cwmni, ac os oedd cyllideb a swydd ddisgrifiadau wedi eu cwblhau, nodwyd y bydd cyllideb o oddeutu £5 miliwn yn fwy na chostau presennol yn cael ei gosod. Nodwyd hefyd y bydd bwriad cyflogi 15 - 18 o swyddogion erbyn 1af o Ebrill 2026. Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu fel bydd y broses yn symud ymlaen.

Mewn ymateb i sylw pam yr angen i addasu'r sefyllfa pan mae'r hyn sydd yn bodoli yn barod yn llwyddiannus, nodwyd bod y newid yn un sydd yn ymateb i ofynion Llywodraeth San Steffan ac nad oedd dewis yn y mater.

- Mynegwyd pryder a risg o golli arbenigedd Hymans
- Bod y costau gweinyddol yn llawer uwch na chostau presennol – y cyflogau yn debygol o fod tu hwnt i raddfeydd Llywodraeth Leol

Cynigiwyd ac eiliwyd argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo Cyflwyniad CPLIL i'r Llywodraeth

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad.

Argymell i'r Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod ar 3ydd Gorffennaf 2025):

1. **Nodi Achos busnes PPC Addas i'r Dyfodol (Atodiad 3, Atodiad 4 ac adran 4)**
2. **Cymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy'n berchnogaeth llwyr i Awdurdodau Gweinyddu PPC a fydd yn cael ei adnabod yn Gwmni Rheoli PPC (IMCo.) a'r holl gamau eraill sy'n angenrheidiol i gyflwyno cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar gyfer awdurdodi'r IMCo. gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis a recriwtio Swyddogaethau Uwch Reolwyr (SMF) fel sy'n ofynnol gan yr FCA a pharatoi a chyflwyno'r cais i'r FCA. (Adran 5)**
3. **Cymeradwyo Cynllun Busnes a chyllideb ddiwygiedig PPC 2025/28 sy'n cynnwys costau dylunio/galluogi ar gyfer Prosiect yr Wyddfa (Atodiad 5 ac Adran 6) 5 - 10 11 - 27 28 - 124**
4. **Dirprwyo'r hawl i'r S151 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i fwrw ymlaen gyda Prosiect Wyddfa gydag Awdurdodau Gweinyddu PPC yn unol ag amserlen y Llywodraeth o fewn y gyllideb gymeradwy.**
5. **Dirprwyo cymeradwyaeth derfynol y ddogfennaeth ffurfiol derfynol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r ImCo, a ddisgrifir fel 'Mynd yn Fyw' fel yr amlinellir yn Adran 7, i'r Pwyllgor Pensiynau roi effaith i Achos Busnes PPC Addas i'r Dyfodol.**

9. CYNHADLEDD CPLL 'POOLING SYMPOSIUM' 2025

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Cynghorydd Iwan Huws oedd wedi mynychu'r gynhadledd ym mis Mai 2025

Adroddwyd mai prif faes trafod y gynhadledd oedd pwlio gan ganolbwyntio ar sut mae pwlio cronfeydd awdurdodau lleol yn parhau i esblygu a beth fydd hyn yn golygu i'r dyfodol. Nodwyd bod yr amseriad yn ddiddorol o ystyried ymateb i'r Ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol. Amlygwyd bod canmoliaeth gref i achos Busnes Cymru a llongyfarchwyd pawb oedd ynghlwm â'r gwaith gan fanylu ar y cydweithio da. Nodwyd bod y gynhadledd wedi bod yn gyfle da i fynychwyr rwydweithio a rhannu arferion gorau ynghyd a chyfle addysgol da i aelodau.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

10. CYNHADLEDD BUDDSODDI YNG NGHYMRU

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Cynghorydd Goronwy Edwards oedd wedi mynychu'r gynhadledd ym mis Ebrill 2025 ynghyd a'r Cyng Elin Hywel a'r Pennaeth Cyllid.

Nodwyd, er bod llawer o siarad am fuddsoddi yng Nghymru, ymddengys mai effaith gymdeithasol (social impact) oedd yn cael ei hyrwyddo yn hytrach na derbyn gwybodaeth lawn am gyfleoedd buddsoddi ariannol yng Nghymru. Cyfeiriwyd at gyfleoedd adfywio canol trefi ac adeiladu tai, ond yn bennaf cafwyd yr ymdeimlad bod Cymru yn wlad o fusnesau bach ac felly angen annog cefnogaeth i'r busnesau hyn i ddatblygu.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 14:30 a daeth i ben 15:15

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	11 GORFFENNAF 2025
TEITL	CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025
PWRPAS	Cyflwyno a nodi – Datganiad o'r Cyfrifon Drafft
ARGYMHELLIAD	Derbyn y wybodaeth
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, sy'n darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Y ddogfen yn Atodiad A yw'r Datganiadau Cyfrifon drafft yn y fformat statudol.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Bydd y cyfrifon drafft yma yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen rhai newidiadau cyn cyflwyno y fersiwn derfynol i chi yn yr Hydref.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn dderbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2024/25.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2024/25

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2024/25 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 44.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cyngorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gynghorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef www.cronfabensiwnwynedd.cymru.

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth benodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair blynedd yn dilyn y prisiad actiwaraid ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o fuddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraid bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r lefel o asedau sydd ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2022 a gwnaed unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Bydd y prisiad nesaf ar 31 Mawrth 2025 a bydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr yn effeithiol o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas

Rheolwr Buddsoddi

01286 679128

delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru

Adran Cyllid

Cyngor Gwynedd

Swyddfa'r Cyngor

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (i bob pwrpas yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran I51" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEBAU Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y Côt Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "Côt").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côt.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2025, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Morgan CPFA
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

27 Mehefin 2025

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

CYFRIF Y GRONFA

31 Mawrth 2024 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2025 £'000
	Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa		
94,278	Cyfraniadau	7	101,760
3	Incwm arall	8	3
8,575	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	9	9,156
102,856			110,919
(82,931)	Buddion	10	(94,520)
(5,068)	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr	11	(7,870)
(87,999)			(102,390)
14,857	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net yn sgil ymwneud ag aelodau		8,529
(15,042)	Costau rheoli	12	(18,282)
(185)	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa		(9,753)
	Enillion ar fuddsoddiadau		
47,956	Incwm buddsoddi	13	65,847
260,095	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	14	105,626
308,051	Enillion net ar fuddsoddiadau		171,473
307,866	Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		161,720
2,762,129	Asedau net agoriadol y gronfa		3,069,995
3,069,995	Asedau net terfynol y gronfa		3,231,715

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 44 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2024 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2025 £'000
3,036,264	Asedau buddsoddi	14	3,192,243
499	Adneuon arian parod	14	1,546
(333)	Ymrwymadau buddsoddi	14	(642)
3,036,430	Cyfanswm buddsoddiadau net		3,193,147
37,723	Asedau cyfredol	20	42,580
(4,158)	Ymrwymadau cyfredol	21	(4,012)
3,069,995	Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd		3,231,715

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr Atodlen	
Cyngor Gwynedd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Elan
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GwE	Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	
Cyrff a Benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Llanfairfechan	Cyngor Tref Llanrwst
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf (ers 01/08/2024)	
Cyrff a Ganiateir	
Addysg Oedolion Cymru	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Adferiad Recovery	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni'r Frân Wen	Mantell Gwynedd
Menter Môn	Medrwn Môn
Cyrff Cymunedol a Ganiateir	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir	
ABM Catering	A E & A T Lewis
Kingdom Services Group	Chartwells

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Nifer y cyflogwyr	46	47
Nifer y gweithwyr yn y cynllun		
Cyngor Sir	15,236	15,220
Cyflogwyr eraill	4,112	4,160
Cyfanswm	19,348	19,380
Nifer y pensiynwyr		
Cyngor Sir	10,194	10,711
Cyflogwyr eraill	2,310	2,500
Cyfanswm	12,504	13,211
Pensiynwyr gohiriedig		
Cyngor Sir	12,093	12,420
Cyflogwyr eraill	2,326	2,406
Cyfanswm	14,419	14,826
Buddion heb eu hawlio		
Cyngor Sir	3,473	4,055
Cyflogwyr eraill	533	628
Cyfanswm	4,006	4,683
Ymadawyr heb benderfynu		
Cyngor Sir	2,738	1,604
Cyflogwyr eraill	300	188
Cyfanswm	3,038	1,792
Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun	53,315	53,892
Pensiwn		

c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yma ar 31 Mawrth 2022. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 0.0% i 31.8% o dâl pensiynadwy.

NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
Lwmp swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbrizio (CARE)
Lwmp Swm	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Cod yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael eu datgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2024/25.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail gronïadol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymïadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar gronïadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau

d) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

e) Costau rheoli

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost reoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016)*, fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronol fel a ganlyn:

Costau gweinyddol

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

Costau arolygu a llywodraethu

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

Costau rheoli buddsoddiadau

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a prynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

f) Treth

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran I(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Datganiad asedau net

g) Asedau ariannol

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu golledion ar werthiannau buddsoddi sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Cod ac SAARh 13 (gweler nodyn 15). Ar gyfer dibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

h) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

i) Arian a chywerthoedd arian

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuo'n ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falansau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

j) Ymrwymadau ariannol

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yny pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob flwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail croniadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

k) Gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Asesir gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraid perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

m) Asedau dibynnol ac ymrwymadau dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu ymrwymiad ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth yr ymrwymiad ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir asedau ac ymrwymadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIAU CYFRIFO

Buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu, credyd preifat ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2025 yn £413.0 miliwn (£267.2 miliwn ar 31 Mawrth 2024).

Ymrwymadau'r gronfa pensiwn

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCC19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol a sydd wedi’u haddo (Nodyn 19)	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau’r gronfa. Cyflogir Hymans Robertson i roi cyngor arbenigol i’r gronfa am y rhagdybiaethau i’w defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau’n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu’n unol ag arweiniad y <i>British Venture Capital Association</i> (Rhagfyr 2018). Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £413.0 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i’w adrodd.

NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

Yn ôl categori

2023/24		2024/25
£'000		£'000
23,500	Cyfraniadau gweithwyr	24,831
	Cyfraniadau cyflogwyr:	
70,948	• Cyfraniadau arferol	76,844
(170)	• Eraill*	85
70,778	Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr	76,929
94,278	Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy	101,760

Yn ôl math o gyflogwr

2023/24		2024/25
£'000		£'000
30,331	Cyngor Gwynedd	32,503
58,497	Cyrff eraill ar yr atodlen	63,001
1,799	Cyrff a ganiateir	1,872
3,269	Cyrff cymunedol a ganiateir	3,691
151	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	150
403	Cyrff a benderfynir	458
(172)	Cronfeydd caeedig*	85
94,278		101,760

* Cyfraniadau cyflogwyr eraill - mae hyn yn ymwneud â thaliad credyd ymadael i gyflogwr a oedd gynt yn y Gronfa.

** Cronfeydd caeedig - mae hyn yn ymwneud â thaliad credyd ymadael ar ôl i gyflogwr orffen yn y gronfa. Roedd y cyflogwr yn flaenorol yn gorff a ganiateir ond bellach yn gronfa caeedig.

NODYN 8 – INCWM ARALL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
2	Llog ar gyfraniadau gohiriedig	0
1	Incwm ar gyfrifo ysgariad	3
3		3

NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
8,575	Trosglwyddiadau unigol	9,156
8,575		9,156

NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

Yn ôl categori

2023/24		2024/25
£'000		£'000
62,931	Pensiynau	70,063
16,841	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	21,597
3,159	Buddion marwolaeth – lwmp swm	2,860
82,931		94,520

Yn ôl math o gyflogwr

2023/24		2024/25
£'000		£'000
25,340	Cyngor Gwynedd	28,742
40,911	Cyrff eraill ar yr atodlen	48,151
1,671	Cyrff a ganiateir	2,085
1,916	Cyrff cymunedol a ganiateir	2,417
50	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	56
189	Cyrff a benderfynir	133
12,854	Cronfeydd gaeedig	12,936
82,931		94,520

NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
271	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth	209
(1)	Taliadau i aelodau sy’n ymuno â chynllun y wladwriaeth	0
4,798	Trosglwyddiadau unigol	7,661
5,068		7,870

NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

2023/24		2024/25
£'000		£'000
12,866	Costau rheoli buddsoddiadau	15,738
1,720	Costau gweinyddol	1,988
456	Costau arolygaeth a llywodraethu	556
15,042		18,282

NODYN 12a- COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2024/25	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	594	101	695
Ecwiti	1,807	986	2,793
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,708	0	1,708
Credyd preifat	990	0	990
Ecwiti preifat	4,370	0	4,370
Isadeiledd	4,763	88	4,851
	14,232	1,175	15,407
Ffioedd gwarchodaeth			331
Cyfanswm			15,738

2023/24	Ffioedd Rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	502	28	530
Ecwiti	1,910	944	2,854
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,740	0	1,740
Credyd preifat	722	0	722
Ecwiti preifat	3,871	0	3,871
Isadeiledd	2,875	0	2,875
	11,620	972	12,592
Ffioedd gwarchodaeth			274
Cyfanswm			12,866

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiadau a grëwyd yn uniongyrchol gany Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno. Ni thalwyd unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr buddsoddi. Yn ogystal a'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau yn Nodyn 14a.

Mae cronfeydd PPC Global Growth, Global Opportunities, Sustainable Equity, Multi Asset Credit, Absolute Return Bond, Global Credit ac Emerging Markets yn fuddsoddiadau a benodir drwy ddull rheolwr o reolwyr sydd â'u ffioedd sylfaenol eu hunain. Mae'r adenillion ar gyfer y mandad hwn yn net o'r ffioedd rheolwr sylfaenol a adlewyrchir yn Nodyn 14a o fewn y 'Newid mewn Gwerth Marchnad'. Er mwyn tryloywder, roedd y ffioedd yn 2024/25 yn £4,125,186 (£3,074,340 yn 2023/24).

NODYN 12b- COSTAU GWEINYDDOL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
794	Costau staff uniongyrchol	903
494	Costau uniongyrchol eraill	648
432	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	437
1,720		1,988

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety.

NODYN 12c- COSTAU AROLYGU A LLYWODRAETHU

2023/24		2024/25
£'000		£'000
87	Ffioedd actiwari	143
78	Ffioedd ymgynghorwyr buddsoddi	68
6	Gwasanaeth monitro perfformiad	47
43	Ffioedd archwilwyr allanol	44
16	Pwyllgor Pensiwnau a Bwrdd Pensiwn Lleol	13
226	Partneriaeth Pensiwn Cymru	241
456		556

NODYN 12ch- PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 12a yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Waystone (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o'r Gwerth Ased Net (NAV).

Y costau arolygu a llywodraethu yn Nodyn 12c yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r awdurdod lletya a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a cheir rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol.

	2023/24	2024/25
	£'000	£'000
Costau rheoli buddsoddiadau		
Ffioedd rheolwyr	3,193	5,624
Costau trafodion	972	1,175
Costau gwarchodaeth	268	331
	4,433	7,130
Costau arolygu a llywodraethu		
Costau rhedeg	226	241
Cyfanswm	4,659	7,371

NODYN 13 – INCWM BUDDSODDI

2023/24		2024/25
£'000		£'000
16,175	Incwm sefydlog	28,082
20,964	Ecwiti	20,417
750	Credyd Preifat	1,252
880	Ecwiti preifat	2,408
765	Isadeiledd	5,924
7,168	Buddsoddiadau eiddo cyfun	6,242
1,254	Llog ar adneuon arian parod	1,522
47,956	Cyfanswm cyn trethi	65,847

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r trafodion cyfnewid a chostau perthnasol.

NODYN 14 – BUDDSODDIADAU

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
Asedau buddsoddi		
Cronfeydd cyfun		
861,232	Incwm sefydlog	878,523
1,697,436	Ecwiti	1,725,148
Buddsoddiadau eraill		
210,350	Buddsoddiadau eiddo cyfun	175,589
10,235	Credyd preifat	50,748
167,029	Ecwiti preifat	162,518
89,982	Isadeiledd	199,717
3,036,264		3,192,243
499	Adneuon arian parod	1,546
3,036,763	Cyfanswm asedau buddsoddi	3,193,789
Ymrwymïadau buddsoddi		
(333)	Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(642)
(333)	Cyfanswm ymrwymïadau buddsoddi	(642)
3,036,430	Asedau buddsoddi net	3,193,147

NODYN 14a – CYSONI SYMUDIADAU MEWN BUDDSODDIADAU A DEILLIADAU

2024/25	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2024	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau cyfun	2,558,668	59,499	(90,100)	75,604	2,603,671
Buddsoddiadau eiddo cyfun	210,350	3,980	(45,410)	6,669	175,589
Credyd preifat	10,235	37,642	0	2,871	50,748
Ecwiti preifat / Isadeiledd	257,011	118,878	(22,930)	9,276	362,235
	3,036,264	219,999	(158,440)	94,420	3,192,243
Adneuon arian parod	499				1,546
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(333)				(642)
Ffioedd o fewn buddsoddiadau wedi'u cyfuno				11,206	
Asedau buddsoddi net	3,036,430			105,626	3,193,147

2023/24	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2023	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2024
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau cyfun	2,287,448	536,033	(523,948)	259,135	2,558,668
Buddsoddiadau eiddo cyfun	221,297	2,981	0	(13,928)	210,350
Credyd preifat	0	13,404	(3,332)	163	10,235
Ecwiti preifat / Isadeiledd	234,188	37,053	(18,208)	3,978	257,011
	2,742,933	589,471	(545,488)	249,348	3,036,264
Adneuon arian parod	963				499
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(960)				(333)
Ffioedd o fewn buddsoddiadau wedi'u cyfuno				10,747	
Asedau buddsoddi net	2,742,936			260,095	3,036,430

NODYN I4b – DADANSODDIAD O FUDDSODDIADAU

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2024			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2025		
£'000	%		£'000	%	
2,118,741	69.8	Partneriaeth Pensiwn Cymru	2,326,430	72.9	
524,137	17.3	BlackRock	521,850	16.3	
236,679	7.8	Grŵp Partners	226,167	7.1	
72,160	2.4	UBS	76,742	2.4	
50,779	1.6	Lothbury	6,263	0.2	
34,267	1.1	Threadneedle	36,337	1.1	
3,036,763	100.0		3,193,789	100.0	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2024			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2025		
£'000	%		£'000	%	
434,566	14.2	WS Wales PP Global Opportunities Equity Fund	460,613	14.3	
415,429	13.5	WS Wales PP Global Growth Fund	418,895	13.0	
412,216	13.4	WS Wales PP Absolute Return Bond Fund	403,246	12.5	
317,063	10.3	WS Wales PP Sustainable Active Equity Fund	317,658	9.8	
267,131	8.7	Black Rock Aquila Life UK Equity Index Fund	294,958	9.1	
226,013	7.4	WS Wales PP Multi Asset Credit Fund	241,859	7.5	
223,004	7.3	WS Wales PP Global Credit Fund	233,417	7.2	
203,363	6.6	Black Rock ACS World Low Carbon Fund	170,002	5.3	

NODYN I4c – BENTHYCA STOC

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £135,500 (£99,730 yn 2023/24). Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa gyfanswm ecwiti a ddyfynnwyd o £44.7m ar fenthyg (£52.2m ar 31 Mawrth 2024). Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y Gronfa. Nid oes unrhyw rwymedigaethau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthycwyd.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO

Mae'r holl asedau wedi'u prasio gan ddefnyddio technegau gwerthoedd teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Ni fu unrhyw newid yn y technegau prasio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae asedau ac ymrwymadau wedi'u dosbarthu i dair lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1 - ble mae gwerthoedd teg wedi eu pennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rywmedigaethau cyfwerth, sy'n cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, bondiau wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned.

Lefel 2 - ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael, neu pan ddefnyddir technegau prasio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata gweladwy.

Lefel 3 - ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO (parhad)

Disgrifiad o'r Ased	Hierarchaeth brisio	Sail y prisiad	Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi	Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a Ddarperir
Arian a chyfwerthoedd arian	Lefel 1	Bernir bod gwerth i'w gario yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn	Dim angen	Dim angen
Buddsoddiadau cyfun- cronfeydd ecwiti	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' (net asset value) ar sail gwerth yr asedau sylfaenol ar y farchnad	Mewnbwn prisiau wedi'i werthuso	Dim angen
Buddsoddiadau cyfun- incwm sefydlog	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol	Mewnbwn prisiau wedi'i werthuso	Dim angen
Buddsoddiadau eiddo cyfun	Lefel 3	Pris cynnig cau pan gyhoeddir prisiau cynnig; pris sengl cau lle cyhoeddir pris sengl	Wedi'i seilio ar 'NAV' wedi'i osod ar sail blaen-brisio	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau
Ecwiti preifat	Lefel 3	Prisiad cymaradwy cwmnïau tebyg yn unol ag <i>International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines 2018</i> ac <i>IPEV Board's Special Valuation Guidance</i> (Mawrth 2020)	- Lluosrif EBITDA - Lluosrif refeniw - Gostyngiad am ddiffyg marchnadwydd - Rheoli premiwm	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar Brisiadau
Isadeiledd	Lefel 3	Wedi'i brisio gan ddefnyddio technegau llif arian disgowntiedig i gynhyrchu gwerth presennol net	Cyfradd ddisgownt a llif arian a ddefnyddir yn y modelau	Cyfradd chwyddiant, llog, treth a chynnewid tramor

Credyd preifat	Lefel 3	Defnyddir technegau prisio yn unol â GAAP yr UD i fesur gwerth teg sy'n gyson â dull y farchnad a/neu ddull incwm, yn dibynnu ar y math o warant a'r amgylchiadau	Mae buddsoddiadau preifat yn cael eu prisio i ddechrau yn seiliedig ar bris trafodion heb gynnwys treuliau. Mae dull y farchnad yn defnyddio prisiau a gynhrychir gan drafodion marchnad sy'n cynnwys gwarantau unfath neu debyg. Mae'r dull incwm yn defnyddio technegau prisio i ddisgowntio llif arian amcangyfrifedig y dyfodol i'r gwerth presennol.	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwyledig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiau.
----------------	---------	---	---	--

Sensitifrwydd asedau a werthir ar lefel 3

Mae'r gwerthoedd a adroddir yn y prisiau Lefel 3 yn cynrychioli'r amcangyfrif mwyaf cywir gwerthoedd y portffolio ar 31 Mawrth 2025. Mae unrhyw oddrychedd sy'n gysylltiedig â'r gwerth buddsoddi wedi'i ymgorffori yn y prisiad a gellir gweld y dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 17.

Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2024/25.

NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymadau ariannol fesul lefel o 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel â'u gwerth teg.

Gwerth ar 31 Mawrth 2025	Pris y	Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy	Heb fewnbwn	Cyfanswm
	farchnad a		gweladwy	
	ddyfynnwyd		sylweddol	
	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Incwm sefydlog	0	878,523	0	878,523
Ecwiti	0	1,725,148	0	1,725,148
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	175,589	175,589
Credyd preifat	0	0	50,748	50,748
Ecwiti preifat	0	0	162,518	162,518
Isadeiledd	0	0	199,717	199,717
Adneuon arian parod	1,546	0	0	1,546
	1,546	2,603,671	588,572	3,193,789
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(642)	0	0	(642)
Cyfanswm	904	2,603,671	588,572	3,193,147

NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG (parhad)

	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy	Heb fewnbwn gweladwy sylweddol	
Gwerth ar 31 Mawrth 2024	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Incwm sefydlog	0	861,232	0	861,232
Ecwiti	0	1,697,436	0	1,697,436
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	210,350	210,350
Credyd preifat	0	0	10,235	10,235
Ecwiti preifat	0	0	167,029	167,029
Isadeiledd	0	0	89,982	89,982
Adneuon arian parod	499	0	0	499
	499	2,558,668	477,596	3,036,763
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(333)	0	0	(333)
Cyfanswm	166	2,558,668	477,596	3,036,430

NODYN 15b – CYSONIAD MESURIADAU GWERTH TEG O FEWN LEFEL 3

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2024 £'000	Trosglwyddiadau o Lefel 3 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn £'000	Enillion/ (colledion) na wireddwyd £'000	(Enillion)/ colledion a wireddwyd £'000	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2025 £'000
Eiddo	210,350	0	3,980	(45,410)	6,669	0	175,589
Credyd preifat	10,235	0	37,642	0	2,871	0	50,748
Ecwiti preifat	167,029	0	12,230	(7,646)	1,177	(10,272)	162,518
Isadeiledd	89,982	0	106,648	(1,552)	8,099	(3,460)	199,717
Cyfanswm Lefel 3	477,596	0	160,500	(54,608)	18,816	(13,732)	588,572

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2023 £'000	Trosglwyddiadau o Lefel 3 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn £'000	Enillion/ (colledion) na wireddwyd £'000	(Enillion)/ colledion a wireddwyd £'000	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2024 £'000
Eiddo	221,297	0	2,981	0	(13,928)	0	210,350
Credyd preifat	0	0	13,404	(3,332)	163	0	10,235
Ecwiti preifat	166,622	0	10,001	(4,692)	1,419	(6,321)	167,029
Isadeiledd	67,566	0	27,052	(2,447)	2,559	(4,748)	89,982
Cyfanswm Lefel 3	455,485	0	53,438	(10,471)	(9,787)	(11,069)	477,596

NODYN I6 – DOSBARTHIAD OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae polisiâu cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymïadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2024			Fel ar 31 Mawrth 2025		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymïadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymïadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol					
2,558,668	0	0	2,603,671	0	0
210,350	0	0	175,589	0	0
10,235	0	0	50,748	0	0
167,029	0	0	162,518	0	0
89,982	0	0	199,717	0	0
0	31,650	0	0	36,963	0
0	6,572	0	0	7,163	0
3,036,264	38,222	0	3,192,243	44,126	0
Ymrwymïadau ariannol					
0	0	(4,491)	0	0	(4,654)
0	0	(4,491)	0	0	(4,654)
3,036,264	38,222	(4,491)	3,192,243	44,126	(4,654)

NODYN I6a – ENILLION A CHOLLEDION NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL

31 Mawrth 2024		31 Mawrth 2025
Gwerth teg		Gwerth teg
£'000		£'000
Asedau Ariannol		
249,348	Gwerth teg drwy elw a cholled	94,420
0	Benthyciadau a derbyniadau	0
249,348	Cyfanswm yr asedau Ariannol	94,420
Ymrwymïadau Ariannol		
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0
0	Cost ymrwymïadau Ariannol	0
0	Cyfanswm yr ymrwymïadau Ariannol	0
249,348	Asedau ariannol net	94,420

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau i leihau risg y farchnad (risg pris, risg arian tramor a risg cyfradd llog) a risg credyd y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Sefydlir polisiau rheoli risg i nodi a dadansoddi'r risgiau sy'n wynebu gweithrediadau'r Gronfa Bensiwn, yna eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd ac amodau'r farchnad.

a) Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, gan sicrhau'r enillion buddsoddiad gorau posibl.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Gronfa a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau ac offerynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth buddsoddi'r Gronfa.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Gronfa wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn mewn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2023/24 a 2024/25.

Math o ased	Symudiad posib y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
	%	%
Ecwiti DU	16.0	16.3
Ecwiti Byd-Eang	16.7	18.6
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	23.0	24.3
Ecwiti Preifat	31.2	26.6
Bondiau Corfforaethol	7.0	6.5
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)	8.8	7.6
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	2.7	2.7
Isadeiledd	13.6	14.5
Eiddo	15.6	15.2
Credyd Amrywiol	7.1	7.5
Arian	0.3	0.3
Cronfa Gyfan	10.7	11.6

Mae'r newid posibl a ddatgelir uchod yn gyson a un symudiad gwyriad safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae cyfanswm newid posibl y gronfa yn ystyried y berthynas disgwyliedig rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau a ddangosir, yn seiliedig ar gyfnewidioldeb sylfaenol a chydberthynas yr asedau, yn unol a theori portffolio amrywiant cymedrig.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhpris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2025 £'000	Canran Newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	294,958	16.3	343,036	246,880
Ecwiti Byd-eang	1,367,167	18.6	1,621,460	1,112,874
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	63,023	24.3	78,338	47,709
Ecwiti Preifat*	162,518	26.6	205,748	119,288
Bondiau Corfforaethol	233,417	6.5	248,589	218,245
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	50,748	7.6	54,605	46,891
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	403,247	2.7	414,134	392,359
Isadeiledd*	199,717	14.5	228,676	170,758
Eiddo*	175,588	15.2	202,278	148,899
Credyd Amrywiol	241,859	6.3	257,097	226,622
Arian	36,963	0.3	37,073	36,851
Dyledwyr a Chredydwyr	2,510	0.0	2,510	2,510
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	3,231,715		3,693,544	2,769,886
*Agedau lefel 3	588,571		691,307	485,836

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2024 £'000	Canran Newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	267,131	16.0	309,872	224,390
Ecwiti Byd-eang	1,370,421	16.7	1,599,281	1,141,561
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,884	23.0	73,657	46,111
Ecwiti Preifat*	167,029	31.2	219,141	114,916
Bondiau Corfforaethol	223,004	7.0	238,614	207,393
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	10,235	8.8	11,136	9,335
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	412,215	2.7	423,345	401,086
Isadeiledd*	89,982	13.6	102,219	77,744
Eiddo*	210,350	15.6	243,164	177,535
Credyd Amrywiol	226,013	7.1	242,060	209,966
Arian	31,650	0.3	31,745	31,555
Dyledwyr a Chredydwyr	2,081	0.0	2,081	2,081
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	3,069,995		3,496,315	2,643,673
*Agedau lefel 3	477,596		575,661	379,350

Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2025 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2024	Fel ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	31,151	35,417
Balansau arian parod	499	1,546
Cronfa Incwm Sefydlog	861,232	878,523
Cyfanswm	892,882	915,486

Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2025	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	35,417	354	(354)
Balansau arian parod	1,546	15	(15)
Cronfa Incwm Sefydlog *	878,523	8,785	(8,785)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	915,486	9,154	(9,154)

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2024	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	31,151	312	(312)
Balansau arian parod	499	5	(5)
Cronfa Incwm Sefydlog *	861,232	8,612	(8,612)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	892,882	8,929	(8,929)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

5.07% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £1,087,938 am y flwyddyn (cyfartaledd cyfradd llog o 4.99% a chyfanswm llog o £1,020,271 yn 2023/24).

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nid yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian tramor yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian tramor ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£DU). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £DU.

Mae gan y Gronfa ymrwymïadau ecwiti preifat ac isadeiledd mewn arian tramor (€69.1 miliwn a UD\$30.4 miliwn). Mae'r ymrwymïadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymïadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymïadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymïadau ers 2005 felly mae'r ymrwymïadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae risg cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael ei gyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Y gwyriad safonol disgwyledig l blwyddyn ar gyfer un arian tramor unigol ar 31 Mawrth 2025 yw 9.1%. Y gyfradd gyfatebol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 oedd 9.3%. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl amrywiadau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2025 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2025	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar leihad
	£'000	£'000	£'000
Ecwiti Byd-eang	1,367,167	1,491,579	1,242,755
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	63,023	68,758	57,288
Ecwiti Preifat	162,518	177,307	147,729
Bondiau Corfforaethol	233,417	254,658	212,176
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)	50,748	55,366	46,130
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	403,247	439,942	366,551
Isadeiledd	199,717	217,891	181,543
Credyd Amrywiol	241,859	263,869	219,851
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,721,696	2,969,370	2,474,023

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2024	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar leihad
	£'000	£'000	£'000
Ecwiti Byd-eang	1,370,421	1,497,870	1,242,972
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,884	65,453	54,315
Ecwiti Preifat	167,029	182,562	151,495
Bondiau Corfforaethol	223,004	243,743	202,264
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	412,216	450,552	373,880
Isadeiledd	89,982	98,350	81,614
Credyd Amrywiol	226,013	247,032	204,994
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,548,549	2,785,562	2,311,534

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i ryw fath o risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler isod meincnod ar gyfer y canran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Cronfa	Canran o'r Portffolio
Ecwiti DU (Black Rock)	8.00%
Ecwiti Carbon Isel (Black Rock)	4.20%
Ecwiti Cynaliadwy (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.10%
Marchnadoedd Datblygol (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	2.50%
Twf Byd Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.10%
Cyfleoedd Byd Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.10%
Credyd Aml Ased (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	7.50%
Bond Dychwelyd Absoliwt (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	12.50%
Credyd Preifat (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	5.00%
Credyd Byd- Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	7.50%
Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.00%
Isadeiledd (Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners)	7.50%
Ecwiti Preifat (Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners)	5.00%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil polisïau yswiriant amrywiol a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdlu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon arian parod, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc, nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor.

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuon y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o arian yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaidau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaidau eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 rhwng y prisiad a gynhelir yn dairblynyddol.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiaidau i dalu pensiynwyr ac i fodloni ymrwymiaidau buddsoddi.

Mae gan y Cyngor llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan y Cyngor yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp y Cyngor. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod mwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £589m, sy'n cynrychioli 18.2% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2024: £478m, oedd yn cynrychioli 15.6% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl ymrwymadau ariannol ar 31 Mawrth 2025 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2024.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Gronfa wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i hofferynnau ariannol pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrasiad teirblyneddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prasiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2022.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido yr Awdurdod Gweinyddu a gafodd ei adolygu ym Mawrth 2023.

I grynhoi, mae'r egwyddorion ariannu allweddol fel a ganlyn:

- cymryd golwg hirdymor darbodus i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion
- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymadau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi i fod yn debygol iawn o gyflawni'r targed cyllido dros 17 mlynedd. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna o leiaf siawns o 70% y bydd y Gronfa yn cyrraedd lefel ariannu'n llawn dros yr 17 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2022. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £2,776 miliwn ar 31 Mawrth 2022, yn ddigon i dalu 120% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y gwarged ym mhrisiad 2022 oedd £468 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026 eu pennu yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Rhagdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio 2022.

Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion cronedig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwyliedig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwyliedig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2022 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2022
Cyfradd disgownt	4.1 % y.f
Cynnydd mewn cyflog	3.2 % y.f
Cynnydd mewn pensiwn	2.7 % y.f

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwyliaid oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda 0% o bwysau ar data 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd hirdymor o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliaid oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Rhagdybiaethau marwolaeth	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	21.1	24.0
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2022)	22.3	25.9

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2022 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2022

Cafodd marchnadoedd eu tarfu gan y rhyfel parhaus yn yr Wcráin a phwysau chwyddiant yn 2022 a 2023, gan effeithio ar enillion buddsoddi a gyflawnir gan asedau'r Gronfa. Gwellodd perfformiad asedau yn 2024 a dechrau 2025; fodd bynnag, mae'r cynnydd diweddar mewn tariffau'r Unol Daleithiau ar fewnforion wedi achosi anwadalrwydd sylweddol yn y farchnad. Profwyd uchafbwynt anwadalrwydd y farchnad hon yn syth ar ôl 31 Mawrth 2025, fodd bynnag, profwyd enillion asedau is na'r disgwyl yn gyffredinol yn y mis yn union cyn hyn.

Mae lefelau uchel o chwyddiant yn y DU (o'i gymharu â phrofiad diweddar), wedi arwain at gynnydd uwch na'r disgwyl mewn buddion CPLIL o 10.1% ym mis Ebrill 2023 a 6.7% ym mis Ebrill 2024. Fodd bynnag, mae chwyddiant wedi gostwng tuaf at lefelau hanesyddol a tharged Banc Lloegr (2% y flwyddyn) gyda buddion CPLIL yn cynyddu o 1.7% yn Ebrill 2025.

Bu newid sylweddol yn yr amgylchedd economaidd ehangach ers 2022, gan arwain at enillion buddsoddi disgwyliedig uwch yn y dyfodol gan leihau'r gwerth a roddir ar ymrwymïadau'r Gronfa. Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa ariannu yn debygol o fod yn gryfach nag ar y prisiad ffurfiol blaenorol ar 31 Mawrth 2022.

Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2025. Bydd y Datganiad Strategaeth Cyllido hefyd yn cael ei adolygu bryd hynny, a bydd fersiwn ddiwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2026.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynnyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried ymrwymïadau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prasio buddion salwch a marwolaeth yn unol â SCC19.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi’u haddo ar 31 Mawrth 2024 ac 2025, fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
	£m	£m
Aelodau Gweithredol	1,140	1,004
Aelodau Gohiriedig	381	314
Pensiynwyr	842	735
Cyfanswm	2,363	2,053

Rhagamcanwyd y buddion ymddeol a addawyd ar 31 Mawrth 2025 gan ddefnyddio brasamcan ymlaen o'r prisiad cyllid ffurfiol diweddaraf ar 31 Mawrth 2022.

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2025 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £405m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £5m.

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Rhagdybiaeth	%	%
Cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.75	2.75
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.25	3.25
Cyfradd ddisgownt	4.85	5.80

Mae'r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2023, gyda 15% o bwysau ar ddata 2023 (a 2022), 0% o bwysau ar ddata 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi’u crynhoi isod:

	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	20.7	23.7
Pensiynwyr y dyfodol (tybir ei fod yn 45 oed ar y dyddiad priso diweddaraf)	21.6	25.3

Nid yw'r rhagdybiaethau demograffig eraill wedi newid ers y flwyddyn diwethaf ac yn unol â phrasiad diweddaraf y gronfa.

Mae'r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymadau wedi’u nodi isod:

Sensitifrwydd i'r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2025	Amcan cynnydd mewn ymrwymadau %	Amcan swm Ariannol £m
0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant CPI	2	37
0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog	0	2
0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	2	39
I mlynedd o gynnydd yn disgwyliad oes aelod	4	82

NODYN 20 – ASED AU CYFREDOL

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
930	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	966
2,853	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	3,004
2,789	Amrywiol ddyledwyr	3,193
6,572	Cyfanswm dyledwyr	7,163
31,151	Arian	35,417
37,723	Cyfanswm	42,580

NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
2,781	Credydwyr amrywiol	2,215
1,377	Buddion sy'n daladwy	1,797
4,158	Cyfanswm	4,012

NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2024 £'000	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2025 £'000
Clerical Medical	5,596	5,852
Utmost Life	153	125
Standard Life	5	5
Cyfanswm	5,754	5,982

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwr yma fel a ganlyn:

	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Clerical Medical	1,062	1,135
Cyfanswm	1,062	1,135

NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,787,170 (£1,605,596 yn 2023/24) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £32.5m tuag at y Gronfa yn 2024/25 (£30.33m yn 2023/24). Ar ddiwedd y flwyddyn, £1.12m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynas â llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, a £1.8m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2024/25, derbyniodd y Gronfa log o £1,087,938 (£1,020,271 yn 2023/24) gan Cyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25 (yr aelod pwyllgor J.B.Hughes). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W.Churchman, R.W.Williams, J.B.Hughes, I.Thomas, G.Edwards, J.P.Roberts, R.M.Hughes a E.Hywel yn aelodau actif o'r Gronfa Bensiwn. Mae aelod pwyllgor I. Huws yn aelod gohiriedig o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25 (yr aelodau bwrdd H.E.Jones a A.Deakin). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd B.Roberts, O.Richards, N.Michael a S.E.Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Prif Bersonél Rheoli

Y Pennaeth Cyllid (s151), Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Cyfarwyddwr y Gronfa (hyd at 30/06/23) yw prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

2023/24		2024/25
£'000		£'000
36	Buddion tymor byr	31
6	Buddion ôl-gyflogaeth	5
42		36

NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm ymrwymadau	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2024	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000
Schroders Capital WPP Global Private Equity I L.P	12,500	9,056	7,556
Schroders Capital WPP Global Private Equity II L.P	25,000	0	18,250
GCM WPP Global Infrastructure L.P	15,000	11,481	7,551
Capital Dynamics CEI (WPP), L.P	10,000	7,082	5,869
Octopus Renewables Infrastructure	34,500	24,824	0
Russell Investments WPP Global Private Credit L.P	110,000	99,927	62,286
IFM Global Infrastructure UK (GB) L.P	57,500	0	0
Cyfanswm GBP	264,500	152,370	101,512
	€'000	€'000	€'000
Partners Group Direct 2006	20,000	0	0
Partners Group Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
Partners Group Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
Partners Group Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
Partners Group Global Infrastructure 2012	40,000	7,019	3,419
Partners Group Direct 2012	12,000	1,181	1,181
Partners Group Global Value 2014	12,000	1,531	1,531
Partners Group Direct Equity 2016	50,000	2,826	2,826
Partners Group Global Value 2017	42,000	11,570	11,570
Partners Group Global Infrastructure 2018	28,000	4,631	4,631
Partners Group Direct Equity 2019	48,000	6,192	4,992
Partners Group Direct Infrastructure 2020	32,000	12,000	9,120
Partners Group Direct Equity V	30,000	25,586	22,279
Cyfanswm Ewro	394,000	80,069	69,082
	UD\$'000	UD\$'000	UD\$'000
Partners Group Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
Partners Group Secondary 2015	38,000	15,220	11,420
Partners Group Direct Infrastructure 2015	43,600	6,986	6,986
CBRE Global Infrastructure Fund (International) L.P	29,075	0	10,932
Cyfanswm Doleri	117,675	23,288	30,420

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw dyledus sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 25 - ASEDAU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

NODYN 26 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymadau dibynnol.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	11 GORFFENNAF 2025
TEITL:	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU: ADDAS I'R DYFODOL
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bod yn cydweithio ers 2017 gyda'r wyth gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru, a hynny drwy gytundeb rhyng- awdurdod a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2017. Cafodd y pŵl ei sefydlu bryd hynny, sef Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae oddeutu £25 biliwn o asedau o dan rheolaeth y pŵl a ceir manteision drwy arbedion cost, gwella cyfleoedd buddsoddi, gwella perfformiad a cynyddu cyd-weithio a llywodraethu ar draws Cymru. Mae hyn wedi gweithio yn dda i Wynedd gyda dros 85% o gronfa Bensiwn Gwynedd wedi ei bwlio.

2. CPLIL: Addas i'r dyfodol

Ers Hydref 2023, mae'r Llywodraeth wedi bod yn adolygu trefniadau buddsoddi CPLIL yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol yn Hydref 2024, ac ym Mehefin 2025, cyhoeddwyd y Bil Pensiynau.

Mae tri maes sydd wedi derbyn sylw:

- Diwygio model gweithredu'r pŵl
- Hybu buddsoddiad CPLIL yn eu hardaloedd a'u rhanbarthau yn y DU, a
- Cryfhau llywodraethu

3. Diwygio model gweithredu'r pŵl

Cyhoeddwyd y dylai pob cronfa a pŵl fabwysiadu model gweithredu sy'n bodloni'r safonau canlynol:

- Awdurdodau gweinyddol i barhau i fod yn gyfrifol am osod strategaeth buddsoddi y gronfa, ond bydd angen dirprwyo gweithrediad y strategaeth i'r pŵl;
- Bydd awdurdodau gweinyddol yn derbyn ei brif cyngor buddsoddi o'r pŵl;
- Bydd angen i'r awdurdodau gweinyddol drosglwyddo ei holl asedau gweddilliol i reolaeth y pŵl;
- Bydd gofyn i'r pŵl ddatblygu'r gallu i gwblhau diwydrwydd dyladwy ar fuddsoddiadau lleol a rheoli'r buddsoddiadau hyn;
- **Bydd y pŵl angen sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau (IM Co) sydd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gyda'r arbenigedd i weithredu strategaethau buddsoddi.**

3a. Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwriadu sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau ar wahân ("IM Co") sydd wedi ei rheoleiddio gan yr FCA yn unol â meini prawf y Llywodraeth. Mae'r prosiect yma wedi ei alw yn 'Prosiect yr Wyddfa' gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r penderfyniad i adeiladu cwmni rheoli buddsoddiadau ("IM Co") ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu canolfan o arbenigedd mewn buddsoddiadau CPLIL yng Nghymru. Paratôdd Partneriaeth Pensiwn Cymru achos busnes cryf i'r Llywodraeth ym mis Chwefror 2025, a derbyniwyd llythyr o gefnogaeth i'r Achos Busnes yn Ebrill 2025.

Bydd angen cyflwyno elfennau newydd yn y strwythur llywodraethu, yn cynnwys Bwrdd Cyfranddalwyr gyda cynrychiolaeth o'r holl awdurdodau gweinyddol. Yn y tymor canolig a hir, mae PPC yn gobeithio darparu buddion ariannol a fydd yn uwch na costau'r model gweithredol. Nid oes costau trosglwyddo buddsoddiadau ond amcangyfrif bydd cost y model newydd oddeutu £5-£5.5m – costau'r Gronfa a nid y Cyngor.

Mae'r gofyniad o sefydlu'r cwmni rheoli buddsoddiadau wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Orffennaf, 2025.

4. Hybu buddsoddiad y CPLIL yn eu hardaloedd a'u rhanbarthau yn y DU

Mae gofyn i gronfeydd pensiwn:

- Nodi sut y byddant yn buddsoddi'n lleol yn eu strategaeth fuddsoddi, gan gynnwys ystod targed ar gyfer y dyraniad ac ystyried blaenoriaethau a chynlluniau twf lleol;
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, Awdurdodau Cyfunol, Awdurdodau Cyfunol Maerol, Awdurdodau Sir Cyfunol ac Awdurdod Llundain Fwyaf er mwyn adnabod cyfleoedd i fuddsoddi'n lleol. Yng Nghymru, byddai awdurdodau gweinyddol yn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol perthnasol ar eu blaenoriaethau a'u cynlluniau datblygu economaidd arfaethedig, a gydag awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol er mwyn adnabod cyfleoedd i fuddsoddi;
- Gosod eu buddsoddiad lleol a'i effaith yn eu hadroddiadau blynyddol;
- Byddai'n ofynnol i bob pŵl gynnal proses diwydrwydd dyladwy addas ar fuddsoddiadau posib a gwneud y penderfyniad terfynol i fuddsoddi ai peidio.

5. Cryfhau llywodraethu

Mae gofyn i gronfeydd pensiwn a'r pŵl adeiladu ar argymhellion Bwrdd Cyngori'r Cynllun (SAB) yn ei Adolygiad Llywodraethu Da 2021:

- Byddai angen i aelodau'r pwyllgor gael yr wybodaeth a'r sgiliau priodol.
- Byddai angen i'r awdurdodau gweinyddol gyhoeddi strategaeth hyfforddi a llywodraethu (gan gynnwys polisi gwrthdaro buddiannau) a strategaeth weinyddu, er mwyn penodi uwch swyddog CPLIL, a chynnal adolygiadau annibynnol bob dwy flynedd er mwyn ystyried a oes modd i'r awdurdodau gweinyddol gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Bydd angen i fyrddau pŵl gynnwys cynrychiolwyr o'u rhanddeiliaid a gwella tryloywder.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r diweddariad.

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	11 GORFFENNAF 2025
TEITL	SYMPOSIWM PWLIO CPLIL
PWRPAS	Derbyn adborth a gwybodaeth berthnasol o'r gynhadledd
ARGYMHELLIAD	Derbyn y wybodaeth
AWDUR	Anthony Deakin

1. CYFLWYNIAD

Cafodd y Symposiwm Pwlio CPLIL ei gynnal ym mis Mai a mi wnaeth Anthony Deakin fynychu ar ran y Bwrdd.

2. SYMPOSIWN PWLIO CPLIL

Gellir dod o hyd i agenda y gynhadledd yma:
<https://www.dgpublishing.com/lgps-pooling-symposium/agenda/>

Bydd Anthony Deakin yn darparu adborth llafar ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol o'r gynhadledd.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn y wybodaeth.

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	11 GORFFENNAF 2025
TEITL	CYNHADLEDD BUDDSODDI YNG NGHYMRU
PWRPAS	Derbyn adborth a gwybodaeth berthnasol o'r digwyddiad
ARGYMHELLIAD	Derbyn y wybodaeth
AWDUR	Dewi Morgan

1. CYFLWYNIAD

Cafodd y Gynhadledd Buddsoddi yng Nghymru ei gynnal ym mis Ebrill a mi wnaeth Dewi Morgan, Cynghorydd Elin Hywel a Cynghorydd Goronwy Edwards fynychu ar ran y Gronfa.

2. CYNHADLEDD BUDDSODDI YNG NGHYMRU

Bydd Dewi Morgan yn darparu adborth llafar ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol o'r gynhadledd.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn y wybodaeth.

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	11/07/2025
Teitl:	ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y BWRDD PENSIWN AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA
Pwrpas:	Cynorthwyo'r Cadeirydd i ysgrifennu'r adroddiad blynyddol

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn gyflwyno adroddiad blynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn ac fel rhan o gyfarfod blynyddol y Gronfa.

Mae'r adroddiad drafft hwn (Gweler Atodiad A) wedi ei baratoi yn fras fel pwynt cychwyn.

2. Amserlen

Mae'n ofynnol bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn: **31/07/2025**.

Bydd cyfarfod blynyddol y gronfa yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref (24/11/2025 am 1 o'r gloch) ac mae croeso i holl aelodau'r Bwrdd fynychu.

3. Cynnwys yr adroddiad drafft

Mae'r adroddiad drafft wedi ei ysgrifennu yn unol â gosodiad adroddiad 2024. Mae nifer o ddatganiadau ffeithiol wedi cael eu gadael heb newid ar gyfer adroddiad 2025 ond mae wedi cael ei ddiweddarau i gymryd ystyriaeth y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

4. Casgliad

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd i ystyried cynnwys yr adroddiad drafft er mwyn trafod ei gynnwys a chynnig gwelliannau yn y cyfarfod.

Fel nodwyd uchod, mae'n ofynnol i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad terfynol i Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi erbyn **31/07/2025**.

Atodiad A

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2024/25 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2025)

Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at bensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod o 1af Ebrill 2024 a 31ain Mawrth 2025, mae'r Bwrdd wedi cwrdd yn rhithiol bedair gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel arsylwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac wedi cytuno cymryd y rôl hon yn eu tro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau rŵan yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle mae'n atebol, gyda swyddogion am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w farn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddu (Cyngor Gwynedd) i:

- i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r CPLIL. A
- ii. sicrhau cydymffurfiaid gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol

Felly, corff monitro, adolygu a chynorthwyo yw'r Bwrdd, nid corff sydd yn rheoli a gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan Gylch Gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5^{ed} o Fawrth 2015).

Mae'n derbyn cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu'r Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion yn cynnwys y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau y Gronfa.

Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

Presenoldeb

Penderfynodd y Cyngorydd Beca Roberts i ymddiswyddo o'r Bwrdd Pensiwn yn ystod 2024/25 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i olynydd. Hoffem ddiolch i Beca am ei gwaith yn ystod ei chyfnod ar y Bwrdd.

	23/04/2024	08/07/2024	14/10/2024	04/02/2025
Anthony Deakin		✓	✓	✓
H. Eifion Jones	✓	✓	✓	✓
Ned Michael	✓	✓	✓	✓
Sioned Evans Parry	✓	✓	✓	✓
Osian Richards	✓	✓	✓	
Cynghorydd Beca Roberts		✓		

Cynllun Gwaith

Yn unol â'r cynllun gwaith a gytunwyd yn y flwyddyn flaenorol, rhoddwyd sylw i adroddiadau ar y materion canlynol:

- Cyllideb y Gronfa Bensiwn
- Amcanion Ymgynghorwyr Buddsoddi
- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- Adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Cyfrifon y Gronfa
- Adroddiad Archwilio Cymru
- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson
- Polisiau Gweinyddol

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a chyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddu i gwblhau eu gwaith.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2025/26 yn cynnwys:

- Diweddariad cyffredinol am Weinyddu Pensiynau
- Polisiau Disgresiwn y Gronfa Bensiwn
- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheolydd Pensiynau
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Diweddariad perfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Cyfrifon Terfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025
- Cofrestr risg
- Cyllideb 2026/27
- Cynllun Busnes 2026/27
- Cynllun Hyfforddi 2026/27
- Rhaglen waith ar gyfer 2026/27
- Prisiant 2025

Hyfforddiant

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y CPLIL a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau rhithiol. Mae'r

rhain yn cynnwys:

LGC: Uwchgynhadledd Buddsoddi a Phensiynau

LGC: Seminar Buddsoddi

PPC: Buddsoddiadau wedi'u pwlio

PPC: Trosolwg o Ddiogelwch Seiber a Ystyriaeth ar gyfer y PPC

PPC: Polisiâu – Polisi Buddsoddi Cyfrifol

PPC: Polisiâu – Hinsawdd

PPC: Polisiâu – Gofalwriaeth

PPC: Buddsoddi Cyfrifol – Cynllunio Taith Net Zero

PPC: Buddsoddi Cyfrifol – Meintiannau Hinsawdd

PPC: Cynnydd Cronfeydd Eraill y CPLIL / Cyfleoedd Cydweithio

PPC: Unrhyw Ddatblygiadau Rheoleiddiol / Canllawiau Newydd

Diolch

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'w gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r swyddogaethau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

**Sioned Parry
Cadeirydd**

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	11/07/2025
Teitl:	DATGANIAD POLISI LLYWODRAETHU WEDI'I DDIWEDDARU
Pwrpas:	Cyflwyno'r Datganiad Polisi Llywodraethu wedi'i ddiweddarau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Bwrdd Pensiwn

1. Cefndir:

Yn unol â Rheoliad 55 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013, mae'n ofynnol i Gronfa Bensiwn Gwynedd gynnal Datganiad Polisi Llywodraethu sy'n amlinellu sut mae'r Gronfa yn cael ei llywodraethu a'i rheoli.

Ar ôl i Mr Dafydd Edwards ymddeol o'i rôl fel Cyfarwyddwr y Gronfa, gwnaed diweddariadau i'r Datganiad Polisi Llywodraethu i:

- Dileu cyfeiriad at y dynodiad "Cyfarwyddwr y Gronfa" dros dro, a gyflwynwyd yn ystod cyfnod pontio penodol.

Mae'r diwygiadau hyn yn alinio'r polisi â strwythur llywodraethu presennol y Gronfa ac yn adlewyrchu'n gywir gyfrifoldebau sydd bellach yn cael eu dal gan y Prif Swyddog Cyllid a'i dimau cefnogi.

2. Newidiadau Allweddol:

- Dileu pob cyfeiriad at rôl "Cyfarwyddwr y Gronfa"
- Eglurhad o swyddogaethau cymorth a ddarperir gan y timau Buddsoddi a Phensiynau

Nid oes unrhyw newidiadau pellach wedi'u gwneud i'r polisi ar hyn o bryd.

Mae copi o'r polisi diwygiedig i'w weld yn **Atodiad A**.

3. Argymhelliad:

Argymhellir bod y Bwrdd Pensiwn:

1. Adolygu ac yn nodi cynnwys y Datganiad Polisi Llywodraethu wedi'i ddiweddarau.
2. Yn cefnogi cyhoeddi a pharhau i ddefnyddio'r ddogfen ddiwygiedig fel rhan o Fframwaith cydymffurfio'r Gronfa.



Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

Datganiad Polisi Llywodraethu

Gorffennaf 2025

Tud. 70

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Pwyllgor Pensiynau.....	3
Bwrdd Pensiwn	4
Prif Swyddog Cyllid	5
Rheolwr Buddsoddi	5
Rheolwr Pensiynau	5
Swyddog Monitro	6
Datganiad Cydymffuriad a'r Drefn Lywodraethol	6
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd.....	6

DATGANIAD POLISI LLYWODRAETHU

Cyflwyniad

Rhaid i Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Pensiwn Gwynedd, fodloni gofynion llywodraethu Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, Rheoliad 55.

Mae'r polisi hwn yn:

- Diffinio cyfrifoldebau penodedig pob corff
- Amlinellu telerau cyfeirio, strwythur a phrosesau allweddol
- Esbonio sut y sicrheir llywodraethu, gweinyddiaeth a chydymffurfiad

Pwyllgor Pensiynau

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo amryw bwerau a dyletswyddau mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa i'r Pwyllgor Pensiynau.

Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, 1 aelod o Gyngor Môn a 1 aelod o Gyngor Conwy, i gyd gyda hawl pleidleisio. Ar hyn o bryd, nid oes cynrychiolaeth o aelodau'r Gronfa (staff) ar y pwyllgor.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor ydi:

1. Pennu strategaeth buddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn drwy gymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido a Datganiad Strategaeth Buddsoddi.
2. Penodi a therfynu apwyntiad rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn, ac adolygu'r perfformiad o ran buddsoddi;
3. Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r Cyngor;
4. Gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu Pensiynau mewn eithriadau e.e. apeliadau
5. Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y gronfa, ac felly derbyn y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwylwyr.

Fel pwyllgor cyfansoddiadol priodol o Gyngor Gwynedd, llywodraethir gweithrediad y materion a ddirprwir i'r Pwyllgor gan gyfansoddiad Cyngor Gwynedd, ac yn arbennig felly, Rhannau 4 a 5 sydd yn llywodraethu rheolau'r dulliau a'r Codau a'r Protocolau sydd i'w dilyn, gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r swyddogion.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw sicrhau fod adroddiad blynyddol ar faterion Pensiynau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno mewn cyfarfod blynyddol o gyflogwyr a chynrychiolwyr staff, ble y gall y naill neu'r llall fel ei gilydd, gwestiynu'r Pwyllgor, eu swyddogion, ymgynghorydd buddsoddi neu reolwyr cronfeydd ar faterion yn ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiaeth a/neu ar faterion pensiynau yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau adolygiad digonol o berfformiad y buddsoddiadau, mae ymgynghorydd buddsoddi'r pwyllgor a phob rheolwr Cronfa yn darparu adroddiad monitro chwarterol i'r Pwyllgor. Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfodydd anffurfiol â'r ymgynghorydd buddsoddi a'r rheolwr buddsoddi fel y gellir herio perfformiad a datrys unrhyw achos sydd yn codi ei ben.

Mae gan unrhyw gyflogwr sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau drwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol sy'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gyda'r gwahanol gategorïau o gyflogwyr.

Bydd gofyn i holl aelodau'r pwyllgor ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau cymhwysedd.

Rhoir ystyriaeth i unrhyw fater sydd angen ystyriaeth ffurfiol mewn cyfarfod priodol o'r Pwyllgor, fel bo dinasyddion yn medru ymarfer eu hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwyllgorau'r Cyngor.

Yn 2014, gofynnodd y Llywodraeth i'r 89 o gronfeydd CPLIL yng Nghymru a Lloegr weithio gyda'i gilydd i greu pyllau buddsoddi i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a buddsoddi mwy mewn seilwaith. Ymunodd Cronfa Bensiwn Gwynedd â'r saith cronfa Gymreig arall i ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

Mae Cydbwyllgor WPP yn bwyllgor goruchwyllo. Mae'n pennu amcanion strategol allweddol ac yn archwilio'r penderfyniadau o ddydd i ddydd a wneir gan grŵp o swyddogion llywodraethu. Mae cadeirydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn eistedd ar y pwyllgor hwn.

Bwrdd Pensiwn

Roedd Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu gyflwyno Bwrdd Pensiynau Lleol i gynorthwyo Rheolwr y Cynllun. Sefydlwyd Bwrdd Pensiynau Gwynedd gan Gyngor Gwynedd ar 13/07/2015.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau rôl goruchwyllo / cynorthwyo nid rôl gwneud penderfyniadau, ei gyfrifoldebau yw:

1. Cynorthwyo Cronfa Bensiwn Gwynedd fel Rheolwr Cynllun;
2. Sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau a gofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
3. Sicrhau llywodraethu a gweinyddu'r Gronfa yn effeithiol ac yn effeithlon.
4. Cynorthwyo gyda materion eraill yn ôl gofynion rheoliadau'r cynllun.

Mae'r Bwrdd Pensiynau'n cynnwys 6 aelod, 3 yn gynrychiolwyr cyflogwyr, 3 yn gynrychiolwyr aelodau'r cynllun, ac mae 1 yn cael eu hethol fel cadeirydd.

Bydd y Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod bob chwarter.

Pan fydd angen, bydd y Bwrdd Pensiynau yn cael ei gynghori gan y Swyddog Adran 151, Swyddogion eraill y Cyngor a Chynghorwyr ac Ymgynghorwyr proffesiynol, ond bydd gofyn i bob aelod o'r bwrdd ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau cymhwysedd.

Prif Swyddog Cyllid

Mae erthygl 12 o gyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod gan y Pennaeth Cyllid (fel Prif Swyddog Cyllid y Cyngor) gyfrifoldeb dros strategaeth gyllidol ac felly ei fod yn gyfrifol tros gynghori'r Pwyllgor Pensiynau ar strategaethau cyllid priodol ar gyfer y Gronfa Bensiwn, ac am sicrhau fod arweiniad arbenigol priodol yn cael ei ddarparu.

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor ac i archwiliwr allanol y Cyngor os yw'n ystyried fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithrediad yn mynd i achosi unrhyw wariant anghyfreithlon, neu yn debyg o achosi colled neu ddiffyg, neu os yw'r Cyngor yn mynd i mewn i gyfrif yn anghyfreithlon.

Rheolwr Buddsoddi

Mae'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm yn cefnogi'r Pennaeth Cyllid yn y cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu buddsoddiadau'r Gronfa gan gynnwys:

- paratoi a chynnal cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd gan gynnwys paratoi'r Adroddiad Blynyddol
- deialog reolaidd gydag ymgynghorwyr, rheolwyr buddsoddi a cheidwad y Gronfa
- monitro a chysoni cofnodion rheolwr buddsoddi a cheidwad
- paratoi a chynnal Datganiad Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Strategaeth Cyllido'r Gronfa
- monitro gweithgaredd a pherfformiad rheolwyr buddsoddi'r Gronfa gan gynnwys cydymffurfio ag amcanion polisi a pherfformiad
- dehongli deddfwriaeth ac ymchwil newydd mewn perthynas â buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa
- monitro gweithgaredd llywodraethu corfforaethol y Gronfa gan gynnwys mynychu Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol (LAPFF)

Rheolwr Pensiynau

Mae'r Rheolwr Pensiynau a'r tîm yn cefnogi'r Pennaeth Cyllid:

- i gasglu cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr gan gyflogwyr sy'n cymryd rhan
- gwneud taliadau mewn perthynas â buddion y cynllun
- casglu a gwneud taliadau trosglwyddo pensiwn fel hetholwyd gan aelodau'r cynllun

- i ddiweddarau a chynnal gwefan y Gronfa
- cynnal a diweddarau cofnodion aelodaeth
- cyfrifo ac awdurdodi taliadau buddion
- darparu data aelodaeth at ddibenion prisio actiwaraid
- paratoi a chynnal y Datganiad Polisi Cyfathrebu a'r Datganiad Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Swyddog Monitro

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi fod y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (fel Swyddog Monitro'r Cyngor) yn adrodd i'r Cyngor os ydyw yn cysidro fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu esgeulustra yn mynd i achosi anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad yn mynd i achosi cam weinyddiaeth. Bydd adroddiad o'r fath yn achosi atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

Datganiad Cydymffurfiaid a'r Drefn Llywodraethol

Mae MHCLG wedi ymrwymo i sicrhau bod pob pwyllgor CPLIL yn gweithredu'n gyson ar safonau arfer gorau. Felly, yn ychwanegol at y gofyniad rheoliadol i gynhyrchu'r Polisi Llywodraethu hwn, diwygiwyd rheoliadau CPLIL 1997 ymhellach ar 30 Mehefin 2007 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu adrodd i raddau'r cydymffurfiaid i set o egwyddorion arfer gorau gael eu cyhoeddi gan MHCLG, a lle mae awdurdod wedi dewis peidio â chydymffurfio, i nodi'r rhesymau pam. Bydd y Polisi Llywodraethu hwn yn cael ei ddiweddarau pan fydd angen a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Mewn person neu drwy'r post:

Cronfa Bensiwn Gwynedd
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon
Gwynedd.
LL55 1SH

Drwy e-bost:

pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

Dros y ffôn:

01286 679982

Ar-lein:

www.CronfaBensiwnGwynedd.cymru

Pwyllgor:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	11/07/2025
Teitl:	COFRESTR RISG
Pwrpas:	Cyflwyno fersiwn ddiweddaraf Cofrestr Risg y Gronfa Bensiwn i'r Bwrdd Pensiwn
Awdur:	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cefndir

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnal Cofrestr Risg er mwyn nodi, mesur a rheoli'r risgiau sy'n gallu effeithio ar reolaeth, perfformiad, ac atebolrwydd y Gronfa. Mae'r ddogfen yn arf rheoli allweddol ac yn rhan annatod o'r fframwaith llywodraethu risg y Gronfa.

2. Diweddariadau ar gyfer 2025

Mae'r fersiwn 2025 wedi'i diwygio i gynnwys:

- Gofynion Cod Cyffredinol newydd yr Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) (Risg 1.4)
- Cyflwyniad y Dashfwrdd Pensiynau a goblygiadau'r newid hwnnw (Risg 6.12)
- Prosiect yr Wyddfa - Y newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol / 'Fit for Purpose' (risgiau 9.1 – 9.3)

Mae copi o'r Gofrestr gyfredol ynghlwm fel **Atodiad A**.

Mae'n ddogfen weithredol a bydd adolygiad rheolaidd a diweddariad ar gyfer unrhyw risgiau sylweddol sydd yn datblygu.

3. Edrych i'r Dyfodol

Mae'n debygol y bydd angen diweddariadau pellach i'r Gofrestr Risg yn dilyn y prisiad diweddaraf ac wrth weithredu'r newidiadau deddfwriaethol a ddaw yn sgil y rheoliadau Addas i'r Dyfodol / 'Fit for Purpose'.

4. Rôl y Bwrdd

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd craffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.

CRONFA BENSIWN GWYNEDD

COFRESTR RISG: Gorffennaf 2025

Matrics Asesu Risg					
Tebygolrwydd	5	10	15	20	25
	4	8	12	16	20
	3	6	9	12	15
	2	4	6	8	10
	1	2	3	4	5
	Effaith				

Asesu'r Effaith				
		Ariannol	Enw da	Rhanddeiliaid / Cwsmeriaid
1	Bach iawn	< £35k	Colled fach iawn a byrhoedlog o ymddiried y cyhoedd.	Effaith leiaf bosib i randaliadau a chwsmeriaid.
2	Bach	£35k - £300k	Colli ychydig o ymddiried gyda ddim effaith barhaol. Ychydig o gyhoeddusrwydd gwael.	Effaith bychan i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cyfyngedig ar wasanaeth.
3	Cymedrol	£300k - £3m	Colled gymedrol mewn ymddiried sy'n derbyn cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol yn lleol heb unrhyw effaith barhaol.	Dim effaith barhaol. Tarfu cymedrol i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cymedrol ar wasanaeth.
4	Mawr	£3m - £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau lleol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad sylweddol i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Bygythiad o gamau cyfreithiol.
5	Trychinebus	> £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad mawr i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad sylweddol gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Camau cyfreithiol. Cof hirdymor cyhoeddus.

Asesu Tebygolrwydd			
		Disgrifiad o'r tebygolrwydd	Tebygolrwydd rhifol
1	Prin	Yn ôl pob tebygolrwydd ni fydd hyn digwydd / aildigwydd.	O dan 1%
2	Annhebygol	Dim yn disgwyl iddo ddigwydd / ddigwydd eto, ond mae'n bosib iddo ddigwydd.	1% - o dan 5%
3	Posibl	Allai ddigwydd neu ddigwydd eto o bryd i'w gilydd.	5% - o dan 20%
4	Tebygol	Mae'n debyg y bydd yn digwydd / ddigwydd eto, ond nid yw'n fater neu amgylchiadau parhaus.	20% - o dan 50%
5	Tebygol iawn	Bydd yn digwydd / digwydd eto heb amheuaeth, o bosib yn aml. Mae'n brosiect sy'n fwy tebygol o fethu na llwyddo.	Dros 50%

Rhif risg	Disgrifiad o'r Risg ac Effaith Bosibl	Risg Cynhenid			Rheolaethau Lliniaru	Risg Cyfredol			Perchennog Risg	Cynlluniau Ychwanegol	Amser len
		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol			
1. Llywodraethu											
1.1	Nid oes gan yr Awdurdod Gweinyddu trefniadau llywodraethu priodol mewn grym gan gynnwys y gofyniad ar gyfer Bwrdd Pensiwn, a gall hyn arwain at: - Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. - Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. - Risg i enw da.	4	3	12	Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd (CBG) Ddatganiad Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfriad Llywodraethu fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau CPLIL 2008. Mae'r ddau ddatganiad yn cael eu hadolygu a'u diweddarau pan fo angen. Ymgynghorir gyda chyflogwyr y Cynllun pan fydd newidiadau yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau bod y polisi yn dal yn briodol. Mae'r Datganiad hwn ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd: www.cronfabensiwnwynedd.cymru Mae Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd yn cyflawni'r dyletswyddau'r ymddiriedolwr/ Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.	3	1	3	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi Rheolwr Pensiynau		

					Mae Bwrdd Pensiwn Gwynedd wedi ei sefydlu yn unol a Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ac yn cyflawni'r rôl craffu yn effeithiol. Mae cymorth a hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r Pwyllgor ac aelodaeth'r Bwrdd y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu rôl. Mae trefniadau rheolaethol addas yn golygu nad oes trosiant rhu uchel yn aelodaeth y Pwyllgor na'r Bwrdd.						
1.2	Methiant i weithredu gydag integriti a bod yn atebol i randdeiliad oherwydd gwrthdaro buddion ayyb.	2	2	4	Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau cyfreithiol. Mae holl aelodau'r Pwyllgor a Bwrdd yn datgan unrhyw wrthdaro a gwrthdaro posibl i'r Gwasanaeth Democratiaeth.	1	2	2	Pwyllgor Pensiynau Bwrdd Pensiwn Pennaeth Cyllid		
1.3	Nid yw'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol sydd yn arwain at: - Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. - Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. - Risg i enw da.	4	3	12	Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Wybodaeth a Sgiliau. Mae rhaglen anwytho ar gael ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Mae aelodau newydd y Pwyllgor a'r Bwrdd yn cwblhau Cwrs Hanfodion CPLIL. Mae gan y Gronfa bolisi Sgiliau a Gwybodaeth, ac mae cynllun hyfforddiant blynyddol yn cael ei fabwysiadu gyda hyfforddiant perthnasol yn cael ei cynnig i aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd yn barhaus. Mae'r Gronfa yn tanysgrifio i gyrff perthnasol (e.e LAPFF) ac yn anfon cynrychiolwyr i gynadleddau perthnasol.	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi Rheolwr Pensiynau		

					Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael gwybod am ac yn cadw at y Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfio, ac yn cael eu hannog i nodi eu gofynion hyfforddi.						
1.4	Methiant i gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ac i ddangos cydymffurfiaeth â Chod Cyffredinol Rheoleiddiwr y Pensiynau, gan arwain at dorri rheoliadau posibl, niwed i enw da, neu wneud penderfyniadau gwael.	3	4	12	Mabwysiadu fframwaith llywodraethu strwythuredig sydd yn unol â Chod Cyffredinol Rheoleiddiwr y Pensiynau, gan gynnwys modiwlau craidd megis arweinyddiaeth y corff llywodraethu, rheoli risg, cadw cofnodion, a chyfathrebu â'r aelodau. Darparu hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau cyfreithiol ac arferion da. Adolygiad llywodraethu blynyddol ac hunanasesiad yn erbyn gofynion y Cod Cyffredinol. Cynnal polisiau a gweithdrefnau cadarn, gan gynnwys rheoli gwrthdaro buddiannau a rheolaethau mewnol. Mecanweithiau adrodd ffurfiol i sicrhau bod pryderon llywodraethu'n cael eu huwchgyfeirio'n brydlon.	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi Rheolwr Pensiynau	Cwblhau dadansoddiad bylchau yn erbyn y Cod Cyffredinol. Datblygu a chyflwyno cynllun gwella llywodraethu. Diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar gynnydd a statws cydymffurfiaeth.	2025
2. Cyllid a Buddsoddiadau											
2.1	Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion Buddsoddi yn gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol o farchnadoedd a buddsoddi a chynghor actiwariaid annigonol sy'n arwain at:	5	3	15	Mae Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa wedi ei osod yn unol â rheoliadau buddsoddi Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Strategaeth Ariannu yn cymryd ymrwymïadau'r Gronfa i ystyriaeth. Mae'r Strategaethau yn cael ei cymeradwyo a'i adolygu gan y Pwyllgor Pensiynau.	3	1	3	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi		

	• Perfformiad gwael y Gronfa. • Colled ariannol. • Cyfraniadau cyflogwr uwch.				Mae'r Gronfa yn defnyddio ymgynghorydd buddsoddi allanol sy'n rhoi arweiniad arbenigol i'r Panel Buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiynau ynghylch y penderfyniadau buddsoddi. Mae Aelodau a Swyddogion yn cael eu hannog i herio'r arweiniad a dderbynir. Mae Aelodau a Swyddogion yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac amserol.						
2.2	Asedau'r Gronfa yn annigonol i gwrdd ag ymrwymadau tymor hir. Strategaeth fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn yn methu cyflawni y dychweliadau gofynnol.	5	3	15	Mae'r prisiant bob tair blynedd yn darparu arwyddion cyfnodol o'r twf mewn asedau yn erbyn ymrwymadau. Mae cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn cael eu gosod yn ddarbodus mewn ymateb i'r angen. Dangosodd prisiant 2022 bod darpariaeth ariannu o 120% yng Nghronfa Gwynedd. Er hynny, mae'r Gronfa yn parhau i ddefnyddio rhagdybiaethau darbodus ar gyfer y prisiad. Mae asedau'r Gronfa wedi eu buddsoddi ar draws ystod eang o wahanol fathau o asedau a chwmnïau rheoli buddsoddiadau er mwyn lleihau effaith colledion posib mewn marchnadoedd a rheolwyr asedau unigol. Yn sgil Prisiad 2022, mae'r Pwyllgor wedi ail-ddyrannu asedau i fathau o asedau risg is. Mae meincnodau penodol addas yn cael eu gosod.	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		

					Mae asedau'r Gronfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli perfformiad y Gronfa. Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn cael eu gwirio yn drylwyr cyn eu penodi ac adolygir perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y meincnod ac amcanion perfformiad y Panel Buddsoddi. Mae'r Gronfa/ PPC yn newid rheolwyr buddsoddi sy'n tanberfformio.						
2.3	Cwmp rheolwr cronfa neu esgeulustod, twyll neu ddiffyg bwriadol a gyflawnwyd gan reolwr cronfa gan arwain at golled ariannol.	4	3	12	Cyflawnir diwydrwydd dyladwy pryd bynnag y penodir rheolwr neu cronfa newydd, ac mae'r sefyllfa yn cael ei adolygu yn gyson drwy monitro chwarterol gan PPC, Panel Buddsoddi a ymgynghorwyr. Mae gofynion cyfreithiol ar gyfer rheolwyr y gronfa yn cael eu nodi yn eu cytundebau rheoli, a disgwylir iddynt cydymffurfio'n llawn â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a gofynion rheoleiddio eraill. Mae'r Gronfa yn defnyddio gwasanaeth ceidwad byd-eang i sicrhau bod buddsoddi asedau yn cael eu gwahanu o'r ddalfa o asedau.	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi		
2.4	Risg y Farchnad - Cwmp yn y farchnad yn arwain at fethiant i leihau'r diffyg, sy'n golygu: - Colled ariannol. - Cynnydd mewn costau cyfraniad y cyflogwr.	5	4	15	Mae asedau'r Gronfa yn cael ei fuddsoddi ar draws ystod eang o ddosbarthiadau ased i liniaru effaith perfformiad gwael mewn segment marchnad unigol. Mae trefniadau perfformiad buddsoddi a monitro yn bodoli sy'n darparu swyddogion buddsoddi gyda'r hyblygrwydd i ail-gydbwysu'r portffolio mewn modd amserol	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		

					petai'r angen yn codi. Mae natur hir dymor yr ymrwymadau'n lliniaru'r risg yn sylweddol.						
2.5	Risg hylifedd - dim digon o arian i gwrdd â ymrwymadau wrth iddynt ddod yn ddyledus	4	3	12	Mae'r rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian i ddeall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae adroddiad Modelu Llif Arian 2023 wedi adnabod y bydd y Gronfa gyda llif arian positif tan o leiaf 2029.	3	1	3	Rheolwr Buddsoddi		
2.6	Risg cyfradd llog - Yn deillio o'r risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad	4	3	12	Mae risg cyfradd llog y Gronfa yn cael ei fonitro fel mater o drefn yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r amlygiad i gyfraddau llog ac asesu cyfraddau llog gwirioneddol yn erbyn y meincnodau perthnasol.	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		
2.7	Risg arian cyfred - bydd gwerth teg llif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor.	4	3	12	Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol (o fewn rhanbarthau byd-eang).	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		
2.8	Mae'r Gronfa yn methu ystyried newid hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) eraill:	5	3	15	Mae gan y Gronfa bolisi Buddsoddi Cyfrifol yn weithredol a targed sero net o 2050 wedi ei osod. Polisi Buddsoddi Cyfrifol 2022 (gwyneddpensionfund.wales) Fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru mae nifer o gamau gweithredol yn digwydd yn cynnwys: grŵp gweithredol buddsoddi cyfrifol, darparwr ymgysylltu a pleidleisio, PPC yn lofnodwr Cod Stiwardiaeth DU. Bydd y Panel Buddsoddi hefyd yn ymgysylltu a herio rheolwyr yn gyson ar sut maent yn	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi	Diweddarau targed sero net a polisi buddsoddi cyfrifol ar ôl canlyniadau'r prisiad	2025/26

					ystyried y risg o newid yn yr hinsawdd a ffactorau ESG. Mae gan y Gronfa nod i fuddsoddi mewn buddsoddiadau sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol ac yn y byd ehangach.						
2.9	Tâl a phrisiau chwyddiant yn sylweddol fwy na'r disgwyl sy'n arwain at gynnydd mewn ymrwymadau sy'n fwy na'r amcangyfrif yn y prisiad.	3	3	9	Mae ffocws y broses prisiant actiwariaid ar enillion gwirioneddol asedau, net o brisiau a thâl yn cynyddu. Mae ehangder buddsoddiadau'r Gronfa yn helpu i liniaru'r risg hwn.	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi		
2.10	Cynnydd yn nifer o ymddeoliadau cynnar oherwydd toriadau gwasanaeth cyhoeddus a / neu iechyd gwael sy'n arwain at ymrwymadau pensiwn yn cynyddu.	3	4	12	Mae'r Gronfa wedi dygymod gydag effaith nifer o flynyddoedd o lymder ac mae trefniadau mewn lle i ddelio gyda'r toriadau costau byw. Mae cyflogwyr yn talu cost cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymddeoliadau cynnar sydd ddim yn ymwneud ac ymddeoliadau salwch yn dilyn pob penderfyniad unigol. Mae ymddeoliadau salwch y Cyflogwyr yn cael ei fonitro, ac mae'n ofynnol i gyflogwyr bach i gymryd yr yswiriant ymddeoliad salwch a ddarperir gan y Gronfa.	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi		
2.11	Mae'r disgwyliad oes gyfartalog o bensiynwyr yn fwy nag a dybiwyd yn dybiaethau actiwariaid. Mae cynnydd mewn ymrwymadau yn fwy na'r amcangyfrif prisiant blaenorol.	3	3	9	Mae rhagdybiaethau disgwyliad oes yn cael eu hadolygu ym mhob prisiant. Mae'r disgwyliad oes wedi ei lefelu allan yn data Prisiad 2022. Mae'r Gronfa yn defnyddio tybiaethau pwrpasol ar sail y disgwyliad oes ar draws ardal Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae tybiaethau marwolaeth yn cynnwys rhywfaint o lwfans ar gyfer cynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi		

2.12	Nid yw cyfraniadau cyflogwyr y cynllun i'r Gronfa yn cael eu derbyn neu eu prosesu neu eu cofnodi yn gyflawn ac yn gywir. Gellir achosi sefyllfa llif arian negyddol, oedi mewn cynhyrchu adroddiadau IAS19/ FRS102 a cau'r cyfrifon.	4	3	12	Ceir amserlen statudol ar gyfer derbyn cyfraniadau. Mae'r tîm yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr y cynllun i sicrhau bod cyfraniadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac yn cael eu cofnodi'n gywir. Mae manylion unrhyw gyfraniadau sydd heb eu talu neu eu talu yn hwyr yn cael eu cofnodi ac mae camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn adennill taliadau.	2	2	4	Rheolwr Buddsoddi		
2.13	Mae cyflogwr yn peidio â bodoli heb gyllid digonol ar gael i ddatrys unrhyw ddyledion, neu'n gwrthod talu gwerth rhoi'r gorau. Cyflogwyr sy'n gadael yn peidio cwrdd â'i ymrwymadau sy'n arwain at gynnydd mewn costau ar draws y cyflogwyr sy'n weddill y Cynllun. Dynodwyd cyflogwyr heb unrhyw Gytundebau Derbyn, ac mae cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu hyn.	3	3	9	Mae'r risg yn cael ei leddfu gan: Gwirio cyflogwyr arfaethedig cyn derbyn fel cyflogwr a sicrhau eu bod yn deall eu ymrwymadau. Mae ceisiadau am fynediad i'r Gronfa yn cael eu hystyried yn ofalus ac mae bond neu warant yn cael ei roi mewn lle os oes angen. Bydd ymrwymadau rhagorol yn cael eu hasesu ac adennill oddi wrth unrhyw gyrff olynol neu ledaenu ymhlith cyflogwyr sy'n weddill. Mae'r prisiant actiwariaid yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfnod adennill gyda risg o dynnu'n ôl. Os oes angen, bydd camau cyfreithiol priodol yn cael eu cymryd.	2	3	6	Pennaeth Cyllid Rheolwr Pensiynau		

2.14	Gall trefniadau pwlio arwain at: - cynnydd mewn costau, yn arbennig dros y flwyddyn nesaf, wedi'i ysgogi gan y diwygiadau arfaethedig a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol'. - perfformiad is - gwrthdaro o fewn y pwl - diffyg alinio i strategaeth buddsoddi Cronfa Gwynedd	4	3	12	Mae swyddogion y Gronfa yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Bartneriaeth er mwyn trafod materion a opsiynau buddsoddi. Mae gan y Gronfa gynrychiolaeth ar pob is-grwp a grwpiau gweithredol y Bartneriaeth. Mae Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd yn aelod o Gyd- bwyllgor Llywodraethu y Bartneriaeth. Mae gan y Bartneriaeth bolisiau a trefn llywodraethu cadarn a tryloyw. Mae cynnydd y Bartneriaeth a perfformiad y cronfeydd mae Cronfa Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Panel Buddsoddi a Bwrdd Pensiwn.	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi Pennaeth Cyllid Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau		
2.15	Nid yw Cyfrifon Terfynol y Gronfa Bensiwn ac Adroddiad Blynnyddol yn cael ei cynhyrchu yn unol a gofynion statudol, safonau cyfrifo neu amserlen archwilio. Risg i enw da'r Gronfa Bensiwn	4	3	12	Mae swyddogion y Gronfa yn Gyfrifwyr Cymwysedig ac yn mynychu cyrsiau hyfforddiant CIPFA rheolaidd. Mae amserlen yn cael ei osod er mwyn sicrhau bod dyddiadau allweddol yn cael ei cyrraedd wrth baratoi y cyfrifon. Cyfathrebu clir a cyson gyda Archwilio Cymru er mwyn gallu cyhoeddi y cyfrifon terfynol wedi'i archwilio cyn y dyddiad statudol o 1af o Rhagfyr. Mae gan y Gronfa systemau gadarn (efinancials, iConnect, Altair) sydd yn cofnodi trafodion y Gronfa yn gywir. Mae gan y Gronfa fynediad i ddatganiadau gan ein Rheolwyr Buddsoddi i gadarnhau trafodion a gwerth asedau'r Gronfa.	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		

2.16	Methu ag esblygu a chwilio am gyfleoedd newydd.	4	3	12	Mae swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy fynychu cyfarfodydd PPC a chynadleddau CPLIL. Mae'r ymgynghorwyr yn diweddarau'r Panel Buddsoddi a swyddogion am unrhyw gyfleoedd.	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		
3. Rôl Ceidwad											
3.1	Methiant ceidwad yn arwain at gollodion sy'n golygu: - Methiant i leihau'r diffyg. - Colled ariannol.	5	3	15	Penodwyd Ceidwad hynod ddibynadwy gydag achrediad uchel. Mae asedau'r Gronfa yn cael eu diogelu mewn achos o ansolfedd y ceidwad. Mae'n rhaid i'r ceidwad gadw at reoliadau ariannol FCA a TPR.	2	2	4	Rheolwr Buddsoddi		
4. Cyfathrebu											
4.1	Cyfathrebu ac ymgysylltu annigonol a Rhandaliadau'r Gronfa Bensiwn. Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau effeithiol a / neu ddarparu'r gwasanaeth. Risg i enw da'r Gronfa.	3	3	9	Mae Polisi Cyfathrebu yn ei le. Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gynhwysfawr ac yn cael ei gadw'n gyfredol. Mae perfformiad y Gronfa yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Buddsoddi a Phensiwn y Gronfa yn rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd gyda chyflogwyr y Gronfa. Mae Datganiadau Buddion Blynnyddol a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn flynyddol i aelodau actif a gohiriedig y Gronfa. Mae'r rhestr gyswllt ar gyfer cyflogwyr yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn cael ei gynnal ar gyfer cyflogwyr ac Undebau	3	2	6	Rheolwr Pensiynau	Mae angen adolygu gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd	2025

					Llafur. Mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi ar wefan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae gwefan Hunanwasanaeth Aelodau 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ar gael i aelodau i gyfrifo buddion eu hunain.						
5. Gwarchod data											
5.1	Efallai na fydd y systemau a data'r Gronfa Bensiwn yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol. - Colli data sensitif. - Risg o golli enw da. Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.	3	2	6	Mae'n ofyniad gorfodol i bob gweithiwr i ymgymryd â hyfforddiant Diogelu Data a glynu at bolisi diogelu data Gwynedd. Mae data cyfraniadau a chyflogau aelodau yn cael eu hanfon drwy'r porth diogel i-Connect yn syth i gofnodion yr aelodau. Ble mae'n bosib, defnyddir system e-bost Egress (system e-bost diogel) i anfon e-byst i gyflogwyr nad ydynt wedi'u rhestru ar restr y Sefydliad E-bost Diogel. Mae system cadw dogfennau yn ddiogel hefyd yn cael ei gweithredu gan ein actiwari ac ymgynghorwyr.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
6. Gweinyddiaeth Pensiynau											
6.1	Buddion pensiwn ddim yn cael eu talu: - Risg o golled ariannol sy'n deillio o hawliadau iawndal. - Difrod i enw da.	4	2	8	Mae'r system gyflogres wedi cael ei sefydlu i dalu pensiynwyr yn fisol. Mae cynllun adfer trychineb ar waith gyda Heywood a fydd yn adfer data o fewn 7 diwrnod mewn achos o fethiant systemau.	4	1	4	Rheolwr Pensiynau		
6.2	Methiant yn ddata'r aelod yn y cynllun a phrosesau cyfrifo buddion	3	2	6	Dim ond gan ffynonellau awdurdodedig y derbynnir gwybodaeth a chyfarwyddiadau.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		

	yn arwain at dwyll, llygredigaeth neu wall. - Taliadau heb awdurdod o dan Ddeddf Cyllid 2004. - Risg o golled ariannol a niwed i enw da.				Mae'n ofynnol i gyflogwyr adolygu a chadarnhau cofnodion aelodaeth yn flynyddol. Mae cyfrifiadau buddion cael eu gwirio gan uwch gydweithwyr. Mae'r holl drafodion yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol Cyngor Gwynedd ac maent yn destun awdurdodiad annibynnol. Aelodau sy'n agosau at 75 yn cael eu nodi ar wahân yn fisol.						
6.3	Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a methiant i weithredu deddfwriaeth a rheoliadau newydd, gan arwain at: - Taliadau anghywir yn cael eu gwneud. - Risg o golled ariannol a niwed i enw da.	3	3	9	Hyfforddiant CLIL (LGA)/ Allanol. Dull gwaith prosiect i weithredu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Hyfforddiant mewnol ar gyfer yr holl staff. Adnoddau ychwanegol mewn lle i weithredu rhwymedi McCloud.	2	2	4	Rheolwr Pensiynau		
6.4	Buddion pensiwn yn parhau i gael ei dalu i bensiynwyr sydd wedi marw, gan arwain at: Risg o golled ariannol a niwed i enw da.	2	4	8	Cysylltir â bob pensiynwr yn flynyddol. Mae pensiynwyr yn cael eu hymgorffori yn y Fenter Twyll Cenedlaethol. Mae gwiriadau pellach yn cael eu cynnal gydag asiantaethau cyfeirio credyd fel sy'n briodol. Mae sgrinio marwolaethau misol yn cael ei wneud ac mae unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu stopio ar unwaith. Mae'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yn weithredol.	2	3	6	Rheolwr Pensiynau		

6.5	Methiant yn y system. - Colli data sensitif. - Niwed i enw da. Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.	5	2	10	Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol. Mae cynllun adfer trychineb mewn lle ac yn cael ei brofi bob blwyddyn (Yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd).	5	1	5	Rheolwr Pensiynau		
6.6	Methiant Hunan Wasanaeth Aelodau Risg enw da.	4	2	8	Yn cael ei gynnal gan y darparwr meddalwedd Heywood.	4	1	4	Rheolwr Pensiynau		
6.7	Ymosodiad Seiber - Colli data sensitif. - Systemau wedi'u difrodi neu eu dinistrio. - Niwed i enw da. Colled ariannol yn deillio o gamau cyfreithiol.	5	3	15	Polisiau priodol a wal dân effeithiol, Mae'r meddalwedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda'r nodweddion diogelwch diweddaraf Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol. Mae angen sawl cyfrinair i gael mynediad i'r system	5	2	10	Rheolwr Pensiynau		
6.8	Cyflogwyr ddim yn cyflawni eu cyfrifoldebau e.e. ddim yn darparu data cywir ar gyfer y gweithwyr neu ddim yn darparu'r wybodaeth mewn modd amserol. Buddion anghywir yn cael eu cyfrifo Oedi tra ein bod yn gofyn am y wybodaeth sydd ar goll.	3	2	6	Mae'r Strategaeth Gweinyddu yn nodi cyfrifoldebau ac amserlenni'r dyllir y cyflogwyr ddilyn. System i-Connect mewn lle i gasglu'r data yn fisol. Cysylltir â'r cyflogwyr am wybodaeth os yw'r adran Bensiynau yn amau bod gwybodaeth ar goll neu yn cynnwys gwallau. Darperir cyngor a gwybodaeth i'r cyflogwyr. Gwiriadau blynyddol o ddata i dynnu sylw at unrhyw fylchau.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		

					Cyfarfodydd ar gyfer y cyflogwyr yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd.						
					Canllawiau ar gael ar y wefan.						
6.9	Methiant i gydymffurfio a rheoliadau datgelu e.e. y gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth o fewn amserlen benodol ar ôl derbyn cais / digwyddiad. Cwynion / Dirwyon	3	2	6	System rheoli llif gwaith cadarn mewn grym.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
6.10	Methiant i gyhoeddi Datganiadau Buddion Blyneddol i aelodau actif a gohiriedig erbyn 31 Awst: - Risg i enw da a chwynion. - Dirwyon.	2	4	8	Ymagwedd rheoli prosiect Mae cyswllt rheolaidd gyda chyflogwyr i gael data. Cyflwynir datganiadau ar-lein ar y wefan hunanwasanaeth. Rhyngwyneb misol i leihau llwyth gwaith ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r prif gyflogwyr (i-Connect)	2	1	2	Rheolwr Pensiynau		
6.11	Dim digon o adnoddau i ddelio â phwysau newydd a newidiadau megis McCloud, Dashboards ac ati.	4	3	12	Mae adnoddau'r Gronfa yn cael ei adolygu'n flynyddol fel bo'r angen gan yn Pwyllgor. Pecyn recriwtio yn cynnig hyblygrwydd.	4	2	8	Rheolwr Pensiynau		
6.12	Methiant i gyflawni gofynion statudol Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau, gan arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth, niwed i enw da, neu darfu ar y gwasanaeth. Niwed i enw da os na fydd data aelodau ar gael, neu os yw'n anghywir neu wedi'i oedi.	3	3	12	Ymgysylltiad rheolaidd gyda'r darparwr meddalwedd i fonitro datblygiad offer cysylltiad y dangosfwrdd. Cynllun prosiect mewnol wedi'i ddatblygu gyda cherrig milltir sy'n unol â'r dyddiad cau disgwylidig ar gyfer camu ymlaen. Adolygiadau a gwella ansawdd data parhaus cyn y broses ychwanegu.	3	2	6	Rheolwr Pensiynau		

	- Cosbau ariannol neu oruchwyliaeth reoleiddiol gan Reoleiddiwr y Pensiynau. - Cynnydd yn nifer y cysylltiadau gan aelodau oherwydd anhrefn yn y data. - Straen ar adnoddau mewnol oherwydd gofynion integreiddio technegol cymhleth.				Hyfforddiant staff a chynllunio adnoddau i reoli'r cynnydd disgwyliedig mewn ymholiadau gan aelodau ar ôl lansio'r dangosfwrdd.						
7. Prosesau Mewnol											
7.1	Mae natur arbenigol y gwaith yn golygu nifer fach o swyddogion sydd gyda'r wybodaeth perthnasol ac mae effaith o ymadawiad staff allweddol yn arwyddocaol. Gallai'r risg o golli staff allweddol arwain at fethiant mewn prosesau mewnol a darparu gwasanaethau, gan achosi colled ariannol ac a bosib niwed i enw da.	4	3	12	Mae swyddogion allweddol yn cyfleu gwybodaeth arbenigol i gydweithwyr ar sail swyddogaeth neu bwnc trwy fentora. Mae anghenion hyfforddi wedi'u eu nodi mewn swydd disgrifiad a'i adolygu bob blwyddyn gydag aelodau'r tîm trwy'r broses arfarnu. Cymwysterau perthnasol penodol ar gyfer staff gweinyddol a buddsoddi. Mae canllawiau mewnol 'Sut i..' yn cael eu datblygu ar yr holl brosesau mewnol. Ymgynghorwyr allanol a chynghorydd annibynnol ar gael ar gyfer cymorth tymor byr.	4	2	8	Rheolwr Pensiynau a Rheolwr Buddsoddi		
8. Ffactorau Allanol na ellir eu Rheoli											
8.1	Gweithrediadau arferol wedi eu tarfu gan ffactorau allanol na ellir eu rheoli	5	5	25	Gweithio o gartref yn digwydd gyda nifer o'r staff yn gweithio'n hybrid erbyn hyn. Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer	3	3	9	Rheolwr Pensiynau	Datblygu dulliau newydd o weithio	

	Bygythiadau cyflenwi gwasanaeth oherwydd tân, bom, tywydd eithafol, namau trydanol, salwch, epidemig, pandemig ac ati. Cefnogaeth dyddiol annigonol, adfer ar ôl trychineb, a gorchudd TG i gefnogi systemau. Colli gallu dros dro i ddarparu gwasanaeth i randdeiliaid				system bensiynau. Parhad Busnes / Trychineb. Cynllun Adferiad i'r Awdurdod gyda waliau tân TG.							
9. Ymateb i 'Addas i'r Dyfodol'												
9.1	Perygl y bydd WPP IM Co yn methu â chael awdurdodiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) mewn pryd ar gyfer mynd yn fyw ym mis Ebrill 2026. Heb awdurdodiad FCA, ni all cwmni buddsoddi PPC weithredu'n gyfreithlon, gan achosi tarfu gweithredol mawr.	4	4	16	Ymgysylltu cynnar a pharhaus gyda'r FCA. Paratoi cais FCA a dogfennaeth cydymffurfio'n drylwyr. Ymgysylltu â chynghorwyr rheoleiddio allanol i sicrhau bod y ceisiadau yn llawn. Datblygu cynlluniau wrth gefn os yw oedi yn digwydd.	4	3	12	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi			
9.2	Costau sefydlu'r prosiect yn uwch na'r disgwyl (£1.6M+), costau rhedeg cychwynnol (£5M-5.5M y.f.), a chyfalaf rheoleiddiol (£5M-10M) yn gallu achosi straen ar gyllidebau. Gallai cost gor-redeg leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau neu yn gofyn am gyfraniadau ychwanegol gan awdurdodau gweinyddu.	4	3	12	Datblygu rhagolygon ariannol manwl ac adolygiadau cyllideb rheolaidd. Gweithredu rheolaethau cost prosiect llym a phrosesau cymeradwyo. Sefydlu trefniadau cyllido clir ac wrth gefn gydag awdurdodau gweinyddu.	3	3	9	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi			
9.3	Gall dibyniaeth ar ddarparwyr trydydd parti ar gyfer gwasanaethau allweddol ar	4	3	12	Cynnal diwydrwydd dyladwy trylwyr ar ddarparwyr trydydd parti.	3	3	9	Pennaeth Cyllid			

	Ddiwrnod 1 gweithrediadau PPC IM Co beri risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd gwasanaeth, parhad ac integreiddio.				Sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth a prosesau monitro cadarn. Datblygu cynlluniau mewnoli graddol gydag amserlenni clir.				Rheolwr Buddsoddi		
--	--	--	--	--	--	--	--	--	----------------------	--	--

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	11/07/2025
Teitl:	POLISIÂU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN
Pwrpas:	Derbyn adborth am gynnwys y polisïau gweinyddol newydd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad:

Dros y blynyddoedd, mae ein cronfa bensiwn wedi gweithredu gyda rhai polisïau gweinyddol sydd wedi arwain ein penderfyniadau a'n gweithredoedd. Fodd bynnag, nid yw'r polisïau hyn wedi'u dogfennu'n ffurfiol. Yn unol â Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, rydym bellach yn cychwyn y broses o ddogfennu'r polisïau hyn i sicrhau eglurder, cysondeb, a chydymffurfiaeth.

2. Pwrpas:

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno tri pholisi gweinyddol allweddol i'r Bwrdd i'w harchwilio. Mae'r polisïau hyn yn hanfodol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r gronfa bensiwn yn effeithiol. Yn dilyn adolygiad y Bwrdd, disgwylir y bydd y polisïau hyn yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau yn eu cyfarfod nesaf.

3. Polisïau a Gyflwynir:

- A. Taliadau ymlaen llaw o'r Gyflogres Pensiynwyr (Atodiad A)** Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle gall y Gronfa roi taliadau ymlaen llaw i bensiynwyr—megis mewn achosion o oedi mewn prosesu.
- B. Dosbarthiad Taliadau Grant Marwolaeth (Atodiad B)** Mae'r polisi hwn yn darparu dull strwythuredig o sut mae taliadau grant marwolaeth yn cael eu dyrannu i fuddiolwyr. Mae'n cynnwys canllawiau ar flaenoriaethu enwebiadau, ymdrin ag anghydfodau, a sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol a theg.
- C. Egwyl mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL (atodiad C)** Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle y caniateir egwyl o addysg heb effeithio ar hawl i bensiwn plentyn dibynnol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), yn benodol ar gyfer unigolion rhwng 18 a 23 oed.

4. Casgliad:

Mae dogfennu'r polisïau hyn yn gam sylweddol tuag at wella llywodraethu a gweinyddu ein cronfa bensiwn. Rydym yn gofyn am adolygiad manwl a sylwadau'r Bwrdd ar y polisïau hyn i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r safonau uchaf o ymarfer. Mae eich archwiliad a'ch cymeradwyaeth yn hanfodol ar gyfer gweithredu llwyddiannus y polisïau hyn.



Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi ar Wneud Taliadau Ymlaen llaw o'r Gyflogres Pensiynwyr

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") mewn perthynas â cheisiadau i wneud taliadau ymlaen llaw o fuddion pensiwn o'r gyflogres pensiynwyr misol. Mae'r polisi yn sicrhau tegwch, tryloywder a chysondeb wrth amddiffyn uniondeb gweithdrefnau gweinyddol ac ariannol y Gronfa.

2. Cefndir

O dan amgylchiadau arferol, mae buddion pensiwn CPLIL yn cael eu talu mewn ôl-ddyledion yn fisol yn unol ag amserlen gyflogres gyhoeddedig y Gronfa. Mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig, gall aelodau neu eu cynrychiolwyr ofyn i daliad gael ei wneud cyn y gyflogres pensiynwr nesaf.

3. Egwyddorion Cyffredinol

Nid yw taliadau ymlaen llaw o'r gyflogres pensiynwyr **yn hawl awtomatig** a dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol**, megis:

- Caledi ariannol ar ôl ymddeol neu brofedigaeth
- Oedi mewn prosesu a achosir gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr aelod
- Camgymeriadau gweinyddol ar ran y Gronfa neu'r Cyflogwr
- Cyfarwyddiadau penodol a gyhoeddwyd o dan orchymyn llys neu gyfarwyddyd cyfreithiol

Bydd pob cais o'r fath yn cael ei ystyried fesul **achos** ac maent yn ddarostyngedig i ddisgresiwn **Rheolwr Pensiynau'r Gronfa (neu swyddog awdurdodedig priodol)**.

4. Meini prawf i'w hystyried

Ystyrir gwneud taliadau ymlaen llaw dim ond os caiff y meini prawf canlynol eu bodloni:

- Mae'r Gronfa wedi derbyn **yr holl ddogfennau angenrheidiol**, gan gynnwys:
 - Ffurflenni datganiad ymddeol yr aelod
 - Gwybodaeth am dâl terfynol a manylion gadael gan y cyflogwr
 - Cadarnhad o wasanaeth pensiynadwy ac unrhyw fudd-daliadau ychwanegol
 - Y gronfa AVC gan ddarparwr AVC (os yw'n berthnasol)
- Gwerth net y taliad yw £100.00 neu fwy.
- Mae swm y pensiwn wedi'i gyfrifo a'i wirio'n gywir.
- Ni fydd y taliad ymlaen llaw yn tarfu ar uniondeb na chywirdeb cyflogres y pensiynwyr nac adrodd diwedd y flwyddyn

Yn bwysig, ni fydd y Gronfa yn ystyried gwneud taliad ymlaen llaw os yw lwmp swm ymddeol yn cael ei dalu ar fuan, gan y disgwylir y gallai'r aelod allu defnyddio'r lwmp swm hwnnw i reoli anghenion ariannol tymor byr cyn derbyn y rhandaliad pensiwn misol cyntaf.

5. Dull Talu ac Amseru

Lle caiff eu cymeradwyo, bydd taliadau ymlaen llaw:

- Wedi'u gwneud drwy daliad y **tu allan i'r cylch arferol** neu daliad **CHAPS â llaw**.
- Yn gallu cynnwys y lwmp swm un tro (grant ymddeol) lle bo hynny'n briodol.
- Wedi'u cofnodi'n glir yn cofnod pensiwn yr aelod ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cymhariaeth gyflogres nesaf a drefnwyd.

Mae'r Gronfa yn cadw'r hawl i ohirio unrhyw daliad ymlaen llaw os oes diffyg gwybodaeth, risg o wall sylweddol, neu eglurhad heb ei roi gan y cyflogwr.

6. Oedi a Chyfrifoldebau Cyflogwyr

Pan fo oedi cyn derbyn gwybodaeth cyflogwr yn atal taliad amserol:

- Ni fydd y Gronfa fel arfer yn gwneud taliad ymlaen llaw oni bai bod yr oedi yn ormodol ac mae'r aelod dan anfantais amlwg.
- Disgwylir i gyflogwyr gyflwyno'r holl wybodaeth ofynnol **o fewn 10 diwrnod gwaith** o ddiwrnod olaf yr aelod o Wasanaeth.
- Gall methiant parhaus gan gyflogwr i fodloni'r gofyniad hwn gael ei waethygu o dan fframwaith torri a chydymffurfiaeth y Gronfa.

7. Adennill ac addasu

Os canfyddir bod taliad ymlaen llaw yn anghywir yn ddiweddarach oherwydd camgyfrifiad neu wybodaeth anghyflawn:

- Mae'r Gronfa yn cadw'r hawl i addasu **taliadau pensiwn yn y dyfodol** i adennill unrhyw ordaliad.
- Bydd yr aelod yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig, a gellir trefnu cynllun ad-dalu mewn achosion o galedi ariannol.

8. Apeliadau

Os gwrthodir cais am daliad ymlaen llaw, gall yr aelod ofyn am adolygiad trwy gyflwyno apêl ysgrifenedig, a fydd yn cael ei ystyried gan uwch swyddog nad yw'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol. Gellir gwneud cynnydd pellach trwy'r **Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)** os oes angen.

9. Adolygiad a Diwygiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfio â rheoliadau perthnasol.

10. Gwybodaeth Gyswllt:

Am gymorth gyda'r polisi hwn, gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg.

- **Ffôn:** 01286 679982
- **Ebost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] [Teitl] Cronfa Bensiwn Gwynedd



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi Talu Grant Marwolaeth

1. Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw amlinellu'r egwyddorion a'r gweithdrefnau y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch talu grant marwolaeth yn dilyn marwolaeth aelod. Mae'r polisi hwn yn sicrhau cysondeb, tegwch a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau actif, gohiriedig a phensiynwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd â hawl i grant marwolaeth o dan y Rheoliadau CPLIL. Bwriad y grant yw darparu cymorth ariannol i fuddiolwyr neu ystâd yr aelod.

3. Datganiad Polisi

Mae gan y Gronfa ddisgresiwn llwyr dros dalu grantiau marwolaeth, fel yr amlinellir yn Rheoliadau'r CPLIL. Mae'r disgresiwn hwn yn galluogi'r Gronfa i wneud taliadau priodol ac amserol i fuddiolwyr wrth ystyried amgylchiadau unigol pob achos.

4. Enwebiadau

Anogir aelodau'n gryf i lenwi a diweddarau **Ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth**, sy'n eu galluogi i enwebu un neu fwy o unigolion neu gyrff i dderbyn unrhyw grant marwolaeth a allai fod i'w dalu.

Er y bydd y Gronfa yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw enwebiad a wneir, nid yw'n gyfreithiol rhwym ganddo ac mae'n cadw disgresiwn absoliwt wrth benderfynu ar dderbynnydd mwyaf priodol y grant marwolaeth.

Mae'n hanfodol bod aelodau'n adolygu a diweddarau eu henwebiad yn brydlon yn dilyn unrhyw newid mewn amgylchiadau personol. Er enghraifft, bydd marwolaeth unigolyn enwebedig yn gwneud yr enwebiad cyfan yn annilys.

Gall aelodau ddiweddarau eu henwebiad ar unrhyw adeg trwy borth **Fy Mhensiwn Ar-lein y Gronfa** neu drwy ofyn am ffurflen yn uniongyrchol gan y Gronfa.

5. Egwyddorion Talu

Bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu yn unol â'r trefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Os yw'r aelod wedi gwneud enwebiad dilys ac wedi'i gadw'n gyfredol, bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu i'r buddiolwyr a enwebwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r enwebiad.

b) Os nad oes enwebiad wedi'i wneud, neu os nad yw unrhyw un o'r buddiolwyr a enwebwyd yn fyw mwyach, bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu fel a ganlyn:

- **I wraig neu bartner sifil yr aelod**, os yw hynny'n berthnasol, yn enwedig lle bydd pensiwn gwraig neu bartner sifil i'w dalu, oni bai bod amgylchiadau eithriadol i'w hystyried.
- **Os nad oes priod neu bartner sifil**, neu os nad yw'r priod/partner sifil yn gymwys i dderbyn pensiwn, bydd y grant yn cael ei dalu i ystad yr aelod.

Ar gyfer unrhyw daliad grant marwolaeth **gwerth £5,000 neu fwy**, bydd angen **Profiant** (os oes ewyllys) neu **Lythrau Gweinyddu** (os nad oes ewyllys) **os nad oes enwebiad dilys** nac unrhyw **bartner** i dderbyn y taliad. Mae'r gofyniad hwn yn sicrhau bod yr unigolyn sy'n gwneud cais am y grant marwolaeth yn cael awdurdod cyfreithiol i reoli etifeddiaeth y person a fu farw ac i ddosbarthu'r arian yn unol â dymuniadau'r person a fu farw neu gyfreithiau hepgor ewyllys.

6. Amserlen Talu

Nod Cronfa Bensiwn Gwynedd yw prosesu taliadau grant marwolaeth **o fewn 10 diwrnod gwaith** o dderbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol, gan gynnwys prawf swyddogol o farwolaeth ac unrhyw ffurflenni angenrheidiol.

Sylwer, mewn achosion cymhleth neu lle mae angen ymchwiliad ychwanegol—megis absenoldeb enwebiad dilys neu ansicrwydd ynghylch buddiolwyr cymwys—gellir ymestyn amseroedd prosesu.

Ar ôl ei gymeradwyo, bydd taliad yn cael ei dalu trwy'r system **BACS (Bankers' Automated Clearing Services)** yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynnydd.

7. Taliad i blant dan 18 oed

Nid yw'r Gronfa yn gallu talu grant marwolaeth yn uniongyrchol i **blentyn o dan 18 oed**. Mewn achosion o'r fath, bydd y taliad yn cael ei wneud i **ymddiriedolwr** neu **warcheidwad penodedig** a fydd yn rheoli'r arian ar ran y plentyn nes iddynt gyrraedd 18 oed. Rhaid i'r gwarcheidwad neu'r ymddiriedolwr penodedig ddarparu dogfennaeth briodol i'r Gronfa sy'n cadarnhau eu rôl a'u hawdurdod cyfreithiol i reoli etifeddiaeth y plentyn.

8. Trethiant

O dan reolau cyfredol CThEM, mae grantiau marwolaeth a delir o fewn dwy flynedd i'r Gronfa gael ei hysbysu am farwolaeth yr aelod fel arfer **yn rhydd o dreth etifeddiant**. Os bydd y taliad yn cael ei ohirio dros ddwy flynedd, gall y grant marwolaeth ddod yn ddarostyngedig i dreth.

Anogir buddiolwyr i geisio cyngor ariannol neu dreth annibynnol i ddeall unrhyw oblygiadau posibl.

Bydd y Gronfa yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y taliad yn cael ei wneud o fewn y ffenestr ddi-dreth, ond ni all warantu hyn ym mhob achos.

9. Cydymffurfiaeth Gyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â:

- Rheoliadau **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**;
- Darpariaethau cymwys Deddf **Cyllid 2004** sy'n ymwneud â budd-daliadau marwolaeth cyfandaliad cynllun pensiwn;
- Canllawiau perthnasol **CThem**;
- Gweithdrefnau llywodraethu mewnol y Gronfa.

Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adolygu ac yn diweddarau'r polisi hwn yn unol ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu reoliadau i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

10. Anghydfodau ac Apeliadau

Os yw unrhyw fuddiolwr posibl yn anfodlon â phenderfyniad y Gronfa ynglŷn â thaliad grant marwolaeth, gallant godi cwyn o dan y **Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol**, yn unol â gofynion y CPLIL.

11. Adolygiad a Diwygiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfio â rheoliadau perthnasol.

12. Gwybodaeth Gyswilt:

Am gymorth gyda'r polisi hwn, gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg.

- **Ffôn:** 01286 679982
- **Ebost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] [Teitl] Cronfa Bensiwn Gwynedd



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi ar Egwyl mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL

1. Pwrpas

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i gefnogi dibynyddion ei haelodau sy'n dilyn addysg bellach neu hyfforddiant galwedigaethol ar ôl troi'n 18 oed. Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle y caniateir egwyl o addysg heb effeithio ar hawl i bensiwn plentyn dibynnol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), yn benodol ar gyfer unigolion rhwng 18 a 23 oed.

2. Darpariaethau'r Polisi

a. Cymhwyster

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddibynyddion:

- Rhwng 18 a 23 oed,
- Sy'n gymwys i gael pensiwn plentyn dibynnol CPLIL,
- Sy'n cymryd egwyl dros dro o **addysg llawn amser neu hyfforddiant galwedigaethol**, gyda'r bwriad gwirioneddol o ddychwelyd.

b. Egwyl Derbyniol mewn Addysg

- Caniateir egwyl o un flwyddyn academiaidd o addysg neu hyfforddiant llawn amser.
- Yng ngwledydd Prydain, mae blwyddyn academiaidd yn cyfeirio at y cyfnod pan fydd ysgolion, colegau a phrifysgolion yn darparu eu haddysgu a'u hasesiadau a drefnwyd. Fel arfer, mae'n rhedeg o ddechrau mis Medi tan ddiwedd mis Gorffennaf, er y gall dyddiadau penodol amrywio ychydig yn ôl sefydliad neu ranbarth.
- Rhaid i'r egwyl ddigwydd ar ôl i'r dibynnol gyrraedd 18 oed, ac yna ddychwelyd i astudio'n llawn amser.

c. Datganiad o Fwriad

- Rhaid i'r dibynnol (neu warcheidwad) anfon **hysbysiad ysgrifenedig** i Gronfa Bensiwn Gwynedd **cyn i'r egwyl ddechrau**.
- Rhaid i'r hysbysiad gadarnhau'n glir y bwriad i ddychwelyd i addysg neu hyfforddiant llawn amser ar ôl yr egwyl.

d. Cadarnhad Ddychwelyd i Addysg

Er mwyn ailgychwyn taliadau pensiwn y plentyn, rhaid cyflwyno:

- **Cadarnhad swyddogol o gofrestriad** gan y sefydliad addysgol neu'r corff cyflogi,
- **Manylion y cwrs**, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen disgwyledig,
- **Cadarnhad ei fod yn llawn amser** (e.e. oriau astudio neu lwyth credyd).

e. Atal ac Ailgydio'r Pensiwn

- Bydd taliadau pensiwn yn cael eu **hatal dros dro** yn ystod yr egwyl a ganiateir.
- Ar ôl derbyn a gwirio tystiolaeth o gofrestru, bydd taliadau'n cael eu **ailgychwyn** a'u talu'n ôl i ddyddiad dechrau'r tymor newydd.

f. Methiant i Ddilyn y Polisi

- Os na fydd y plentyn yn **dychwelyd** i addysg llawn amser o fewn y cyfnod o un flwyddyn academiaidd, caiff pensiwn y plentyn ei **gau**.
- Cynhelir adolygiad terfynol o'r hawl yn unol â Rheoliadau'r CPLIL a'r polisi hwn.

3. Adolygu'r Polisi a Newidiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol.

4. Manylion Cyswllt:

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.llyw.cuymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: